



WLGA • CLILC



UNED DDATA LLYWODRAETH LEOL ~ CYMRU
LOCAL GOVERNMENT DATA UNIT ~ WALES

Fframwaith Gwella Perfformiad
Llywodraeth Leol 2016-17

Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus

Canllawiau i awdurdodau lleol

Fersiwn 4

Cynnwys

	Tudalen
<u>Cyflwyniad</u>	2
<u>Canllawiau i ddefnyddwyr</u> Gwybodaeth am drefn y dogfen canllawiau a threfn proffiliau'r dangosyddion perfformiad (DP)	3
<u>Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus</u> Diffiniadau manwl am y mesurau	4
<u>Atodiad A: Rhifo'r dangosyddion</u> Manylion y cynllun rhifo	64
<u>Atodiad B: Dogfen ategol</u> Diwygiadau i'r dangosyddion ar gyfer 2016-17	66

Cynnwys

Cyflwyniad

Mae'r **Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus** yn cynnwys set fach o ddangosyddion â'u ffocws ar ddeilliannau. Maent yn adlewyrchu'r agweddau hynny ar waith awdurdodau lleol y mae awdurdodau yn cytuno eu bod yn bwysig o ran atebolrwydd cyhoeddus. Er enghraifft, ailgylchu, cyrhaeddiad addysgol, datblygiad cynaliadwy, ac yn y blaen. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu a'i hadrodd yn genedlaethol, ei dilysu, a'i chyhoeddi'n flynyddol.

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus a gynhwysir o fewn y fframwaith ar gyfer 2016-17.

Nodir y newidiadau i'r set ddata yn y Ddogfen Atodol yn [Atodiad B](#).

Dangosyddion (Strategol Cenedlaethol) Statudol

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad ysgrifenedig yn ddiweddar yn cadarnhau dirymu Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2012. Fel y cyfryw, 2015-16 fydd blwyddyn olaf casglu'r hen Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol (NSIs) gan Lywodraeth Cymru. Er mwyn sicrhau'r ymyrraeth leiaf posibl i awdurdodau lleol, y bydd llawer ohonynt wedi cynnwys y dangosyddion hyn yn eu cynlluniau gwella ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, cytunodd pwyllgor cydlynu WLGA y dylem ni eu casglu ochr yn ochr â'r PAMs ar gyfer 2016-17.

Bydd adolygiad yn cael ei gynnal, dan arweiniad llywodraeth leol, o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol yn ystod 2016 i'w cyflwyno o Ebrill 2017 ymlaen.

Ystyriaethau, cyngor ac arweiniad am ddiffiniadau

Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad manwl am y Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus sydd ar waith ar gyfer 2016-17. Mae'r arweiniad ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd. Am bob dangosydd fe welwch ddiffiniadau ac arweiniad manwl. Bydd yr arweiniad yn nodi'r hyn sy'n cael ei gynnwys a'i hepgor yn benodol o'r mesurau ac yn esbonio'n glir sut y dylai'r dangosyddion gael eu cyfrifo.

Mae cyngor ac arweiniad ychwanegol ar gael oddi wrth yr Uned Ddata drwy e-bostio: pienquiries@uneddatacymru.gov.uk neu drwy ffonio 029 2090 9558.

Cynnwys

Canllawiau i ddefnyddwyr

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau manwl ar gyfer holl Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus sy'n berthnasol o fis Ebrill 2016.

Defnyddiwch y dolenni a fydd yn ymddangos yn rheolaidd i'ch helpu chi i fynd trwy'r ddogfen yn electroneg.

Proffiliau Dangosyddion Perfformiad (DP)

Mae gwybodaeth fanwl am bob dangosydd yn cael ei nodi mewn 'Proffil y DP'. Mae'r proffil hwn wedi'i drefnu i wneud yr wybodaeth sydd yn y dangosydd mor eglur â phosibl ar gyfer darparwyr a defnyddwyr y gwasanaeth, yn ogystal ag unrhyw un arall sydd â diddordeb ynddo.

Dyma eglurhad o drefn proffil y DP:

Maes gwasanaeth/polisi	I ba faes gwasanaeth y mae'r dangosydd yn perthyn
Parth	Cyrchu Gwasanaethau, Ansawdd Gwasanaeth, Adnoddau neu Ganlyniadau Strategol
Cyfeirnod	Dyma rif adnabod y dangosydd
Pennawd	Crynodeb o ffocws y dangosydd
Dangosydd	Beth gaiff ei fesur
Canllaw	Canllawiau manwl sy'n egluro diffiniadau, gwybodaeth am beth i'w gynnwys/hepgor wrth gasglu'r data ar gyfer y dangosydd ac ati
Cyfrifiad	Dyma'r data sydd angen eu casglu i gyfrifo'r dangosydd ynghyd â'r fformiwla i'w ddefnyddio i wneud hyn
Ffynhonnell data	Cyfeirnod at enghreifftiau eraill o'r data yma e.e. ar ffurflenni eraill
Lle degol	Nifer y manau degol a fyddai'n addas ar gyfer cofnodi'r dangosydd
Esboniad	Eglurhad cryno am yr hyn a gaiff ei gasglu a pham
Dadelfeniad	Unrhyw ddull gwahanu data'r dangosyddion y gallai'r awdurdodau ei ddefnyddio

[Cynnwys](#)

Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus

[Geirfa](#)

Rhif	Cyfeirnod	Dangosydd	Nodiadau	Tudalen
Tai fforddiadwy a phriodol				
1	PSR/002	<i>Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl</i>	Hen Dangosydd Strategol Cenedlaethol	10
Dyfodol cynaliadwy				
2	WMT/004(b)	<i>Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a anfonir i safle tirlenwi</i>	Hen Dangosydd Strategol Cenedlaethol	13
3	WMT/009(b)	<i>Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei aildddefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi eu gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall</i>	Hen Dangosydd Strategol Cenedlaethol	14
4	CAM/037	Canran y newid yn sgôr gyfartalog Tystysgrif Arddangos Ynni o fewn adeiladau cyhoeddus awdurdodau lleol dros 1,000 o fetrau sgwâr		16
Amgylchedd glân a diogel				
5	STS/005b	Canran y priffyrdd a adolygwyd sydd o safon glendid uchel neu dderbyniol		18
6	THS/012	Canran y prif ffyrdd (dosbarth A), ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) a ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol.	Wedi'i agregu	20
7	PPN/009	Canran y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd		23
Cefnogi bywydau diogel ac annibynnol				
8	SCA/021	Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd	Wedi ei ddisodli (gweler SCA/001) Mesur perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol	-

Rhif	Cyfeirnod	Dangosydd	Nodiadau	Tudalen
			19	
	SCA/007	Canran y cleientiaid a chynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi'u hadolygu a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn	Wedi ei ddileu	
	SCA/018a	Canran y gofaluwr sy'n gofalu ar ôl oedolion a gafodd cynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion eu hunain yn ystod y flwyddyn.	Wedi ei ddileu	
	SCA/019	<i>Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli</i>	Wedi ei ddileu	
Diogelu plant				
9	<u>SCC/004</u>	<i>Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a oedd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn</i>	Mesur perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol 33	-
	SCC/045	Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, adolygiadau plant sydd ar y Cofrestr Amddiffyn Plant ac adolygiadau plant mewn angen a gafodd eu cynnal yn unol a'r amserlenni statudol	Wedi ei ddileu	
	SCC/025	Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd i fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a gafodd eu cynnal yn unol â'r rheoliadau	Wedi ei ddileu	
Addysgu plant				
10	<u>EDU/002i</u>	<i>Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol) sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd.</i>	Hen Dangosydd Strategol Cenedlaethol	25
11	<u>EDU/003</u>	<i>Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon.</i>	Hen Dangosydd Strategol Cenedlaethol	27
12	<u>EDU/004</u>	Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn		29

Rhif	Cyfeirnod	Dangosydd	Nodiadau	Tudalen
		ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon.		
13	EDU/011	<i>Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol¹</i>	Hen Dangosydd Strategol Cenedlaethol	31
14	EDU/016a	Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd		33
15	EDU/016b	Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd.		35
16	EDU/017	<i>Canran y disgyblion 15 oed ar y 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg¹</i>	Hen Dangosydd Strategol Cenedlaethol	37
Rheolaith corfforaethol				
17	CHR/002	Nifer y diwrnodau/sifftiau gwaith wedi colli oherwydd salwch, fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn		39

¹ O 2016 ymlaen, bydd Llywodraeth Cymru yn adrodd perfformiad ysgolion Cyfnod Allweddol 4 ar sail carfannau blwyddyn 11 yn hytrach na dysgwyr sy'n 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn. O 2015-16, bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrifo mesurau allweddol ar seiliau blwyddyn 11 a 15 oed fel ei gilydd. Gan hynny byddwn yn trefnu bod y ddau ffigur ar gael ar gyfer EDU/011 ac EDU/017.

Mae pwyllgor cydlynu WLGA wedi cytuno y dylem ni gasglu'r hen Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol (NSIs) ochr yn ochr â'r PAMs ar gyfer 2016-17. Byddwn felly yn cynnwys y dangosyddion canlynol yn ffurflen casglu data PAMs ar gyfer 2016-17:

Rhif	Cyfeirnod	Dangosydd	Nodiadau	Tudalen
	NSI SCA/001	<i>Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd</i>	Wedi ei ddileu	
	NSI SCA/002a	<i>Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth</i>	Wedi ei ddileu	
	NSI SCA/002b	<i>Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth</i>	Wedi ei ddileu	
1	<u>NSI SCC/002</u>	<i>Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi profi un neu ragor o achosion o symud ysgol, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oeddent yn drefniadau dros dro, yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth</i>	Mesur perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol 32	-
2	<u>NSI PSR/004</u>	<i>Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol</i>	Hen Dangosydd Strategol Cenedlaethol	42
3	<u>NSI PLA/006b</u>	<i>Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn</i>	Hen Dangosydd Strategol Cenedlaethol	44
4	<u>NSI EDU/002ii</u>	<i>Canran y disgyblion sydd yng ngofal awdurdodau lleol, sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd</i>	Hen Dangosydd Strategol Cenedlaethol	47
5	<u>NSI EDU/006ii</u>	<i>Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith</i>	Hen Dangosydd Strategol	50

Rhif	Cyfeirnod	Dangosydd	Nodiadau	Tudalen
		<i>gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3</i>	Cenedlaethol	
6	<u>NSI EDU/015a</u>	<i>Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau, gan gynnwys eithriadau</i>	Hen Dangosydd Strategol Cenedlaethol	52
7	<u>NSI EDU/015b</u>	<i>Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau, heb gynnwys eithriadau.</i>	Hen Dangosydd Strategol Cenedlaethol	52
8	<u>NSI STS/006</u>	<i>Canran yr achosion o dipio gwastraff yn anghyfreithlon y rhoddwyd gwybod amdanynt ac y cliriwyd y gwastraff o fewn 5 niwrnod gwaith.</i>	Hen Dangosydd Strategol Cenedlaethol	55
9	<u>NSI THS/007</u>	<i>Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy'n ddeiliaid tocynnau teithio rhatach ar y bws.</i>	Hen Dangosydd Strategol Cenedlaethol	57
10	<u>NSI LCS/002b</u>	<i>Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth, pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol</i>	Hen Dangosydd Strategol Cenedlaethol	58
11	<u>NSI LCL/001b</u>	<i>Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth</i>	Hen Dangosydd Strategol Cenedlaethol	62

[Yn ôl](#)

Geirfa

Gwastraff Trefol Awdurdodau Lleol

Gwastraff a gesglir gan awdurdodau lleol neu ar eu rhan o dan adrannau 45 a 51(1)(b) a 51(3) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yw gwastraff trefol awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys gwastraff sy'n deillio o:

- Rowndiau casglu gwastraff (gan gynnwys rowndiau casglu gwastraff i'w ailgylchu)
- Glanhau strydoedd a chasglu sbwriel gan gynnwys dail
- Glanhau traethau
- Casglu gwastraff swmpus
- Casglu gwastraff cartref peryglus
- Casglu gwastraff gardd
- Cyfleusterau derbyn gwastraff
- Rwbél a gwastraff adeiladu a dymchwel sy'n dod o gartrefi ac a adewir mewn safleoedd amwynderau dinesig ac ati
- Clirio gwastraff tipio anghyfreithlon
- Lludw Gwaelod Llosgyddion, ar yr amod bod y gwastraff wedi'i losgi mewn cyfleuster sy'n dilyn fformwla R1
- Gweddillion Rheoli Llygredd Aer, y lludw a gynhyrchir yn sgil llosgi gwastraff trefol awdurdodau lleol
- Teiars (ond nid teiars a gesglir o gerbydau wedi'u gadael)
- Plastrfwrdd
- Casglu gwastraff clinigol o gartrefi
- Ysgubo heolydd a strydoedd
- Cerrig mân, dail a sbwriel o wastraff gyli (gwastraff a olchir o sianeli draenio ar ffyrdd a meysydd parcio i botiau tanddaear)

Mae gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol hefyd yn cynnwys gwastraff a gesglir gan drydydd partion y telir taliadau ailgylchu amdano neu y daethpwyd i drefniant ffurfiol arall gyda'r awdurdod lleol yn ei gylch.

At ddibenion y dangosyddion hyn, gellir disgrifio eitemau a gesglir o gartrefi neu safleoedd masnachol gan awdurdodau lleol neu eu hasiantau (lle mae cytundeb ffurfiol rhyngddynt) a gaiff eu paratoi i'w hailddefnyddio fel gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol.

At ddibenion cyfrifo'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol, dyma'r gwastraff nad oedd yn arfer cael eu cynnwys, ond sydd yn cael eu cynnwys bellach: rwbél, pridd a Lludw Gwaelod Llosgyddion, gwastraff glanhau traethau.

[Yn ôl](#)

Maes gwasanaeth/polisi	Tai - Adnewyddu'r Sector Preifat
Parth	Ansawdd Gwasanaeth
Cyfeirnod	PSR/S/F/002/05-011 (PSR/002)
Pennawd	Amseriad Grant Cyfleusterau i'r Anabl
Dangosydd	<i>Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl.</i>
Canllaw	<p>Caiff Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) eu rhoi gan yr awdurdod lleol, dan Ran 1 o'r Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996, i helpu tuag at y gost o ddarparu addasiadau a chyfleusterau i bobl anabl, er mwyn iddynt allu symud o gwmpas eu cartrefi yn well, a hygyrchedd at gyfleusterau angenrheidiol y tu mewn iddo.</p> <p>Cynhwyswch unrhyw DFGs sy'n cael eu rhoi tuag at help darparu addasiadau a chyfleusterau ar gyfer yr iard, yr ardd, tai-allan a phopeth sy'n perthyn i'r annedd.</p> <p>Mae'r dangosydd hwn yn mesur yr holl DFGs mandedol wedi'u rhoi yn ystod y flwyddyn ariannol, ac fe ddylai delio gyda'r taliadau o'r DFGs ym mhob sector, ac nid dim ond perchnogion preswyl.</p> <p>Dylai nifer y diwrnodau calendr y mae'n cymryd o'r dyddiad cofnodedig cyntaf y cleient gyda'r awdurdod lleol yn gysylltiedig, yn benodol, gydag addasiad, lle wedyn caiff DFG ei gynnig – hyd at y "dyddiad ardystiedig". Ar yn ail, mewn achos cleient sy'n bodoli'n barod, dylai'r man cychwyn bod ar y dyddiad y caiff yr angen am asesiad ei godi'n gynaf, lle wedyn, caiff DFG ei gynnig naill ai gan y cleient neu'r awdurdod.</p> <p>Lle cydnabyddir gwaith yn orfodol fel rhan o DFG, dylai'r cyfrif ddechrau ar y dyddiad y mae'r gwaith addasu'n orfodol hyd at y dyddiad y mae'r holl waith yn cael ei gwblhau – h.y. y "dyddiad ardystiedig".</p> <p>Rhaid i awdurdodau lleol cynnwys y nifer o ddiwrnodau calendr y mae'n cymryd i gwblhau'r holl gamau o'r broses DFG, gan ddilyn y cysylltiad cofnodedig cyntaf gyda'r cleient parthed y DFG. Lle'n gymwys, dylai hyn gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Asesiad Therapydd Galwedigaethol; • Anfon cais grant i'r cleient; • Cais wedi'i gwblhau yn cael ei dderbyn gan yr adran grantiau; • Hysbysiad cymeradwyol ffurfiol yn cael ei ddanfon at y cleient. <p>Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.</p> <p>Dylai DFGau nas ardystiwyd erbyn diwedd y flwyddyn gael eu heithrio o'r rhifiadur a'r enwadur ar gyfer blwyddyn bresennol yr NSI hwn. Mae hyn yn cynnwys DFGau na ellir eu hardystio yn sgil newid parhaol yn amgylchiadau'r cleient (er enghraifft, cleientiaid sydd wedi gadael yr ardal neu a fu farw). Yn yr un modd, dylai DFGau cleientiaid sy'n methu â chyflwyno ceisiadau o fewn amserlenni penodol ac y caiff eu hachosion eu cau yn sgil hynny, gael eu heithrio.</p>

	<p>Os caiff unrhyw achos ei ailagor yn y dyfodol, dylid ei ystyried yn DFG newydd.</p> <p>Yn unol â'r uchod, dylai'r amser o'r cyswllt cyntaf i'r dyddiad ardystio gael ei gyfrifo fel un cyfnod, heb eithriadau. Ni ddylai unrhyw gyfnodau amser gael eu heithrio wrth gyfrifo diwrnodau calendr ar gyfer DFG ardystiedig am unrhyw reswm, gan gynnwys y rhai pan oedd y person a oedd yn erbyn y DFG yn aros yn yr ysbyty am gyfnod hir, cyfnodau o dywydd garw, neu gontractwr sy'n fethdalwr. Mae hyn yn disodli unrhyw ganllawiau blaenorol ar y mater hwn. Os byddant yn codi, gall materion o'r fath gael eu nodi fel rhesymau dros gadarnhau data fel rhan o'r dilysiad.</p>		
Cyfrifiad	<p>Rhifiadur: Cyfanswm nifer y diwrnodau calendr a gymerir i gyflwyno pob DFG ardystiedig yn ystod y flwyddyn ariannol</p> <p>Y rhifiadur yw'r swm o ddiwrnodau calendr y mae'n cymryd i roi pob DFG.</p> <p>Enwadur: Y nifer o DFGs a gafodd eu rhoi yn ystod y flwyddyn ariannol.</p> <p>Fformiwla: <u>Rhifiadur</u> Enwadur</p>		
Dilysiad	<p>Dylai'r enwadur fod yn agos i nifer y DFGau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn ariannol yn nhabl 1 o'r ffurflen Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG). Gallai mân wahaniaethau fodoli pe bai DFGau yn cael eu hardystio mewn un flwyddyn a'u cwblhau yn y flwyddyn nesaf.</p> <p>Os bydd yr enwadur yn fwy na 10 y cant yn wahanol i'r data yn nhabl 1 o'r ffurflen Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) ar gyfer y flwyddyn flaenorol, bydd angen esbonio'r newid.</p> <p>Bydd angen esbonio rhifiaduron sydd wedi newid yn sylweddol ers y flwyddyn flaenorol. Caiff arwyddocâd ei bennu yn y cyd-destun hwn drwy ystyried newidiadau yng ngwerthoedd Cymru mewn blynyddoedd blaenorol.</p> <p>Bydd angen esbonio gwerthoedd dangosyddion sy'n ymddangos yn arbennig o uchel neu isel o gymharu â set data Cymru gyfan ar gyfer y flwyddyn ariannol.</p>		
Ffynhonnell Data	-	Lle Degol	0
Esboniad	<p>Mae'r dangosydd hwn yn mesur ansawdd y gwasanaeth wedi'i darparu pan fo awdurdodau un defnyddio DFGs er mwyn cwblhau gwaith addasu.</p> <p>Dylai'r dangosydd hwn rhoi cynrychiolaeth gywir o ba mor hir mae'r broses yn cymryd o safbwynt y cleient, a dyna pam na ddylai unrhyw gyfnodau o amser gael eu heithrio wrth gyfrifo'r diwrnodau calendr fel y nodir uchod. Mae'r rhain yn faterion y dylai'r awdurdod ddelio â hwy fel rhan o'u gwaith arferol, yn yr un ffordd ag y byddent yn delio â phroblem gyda'r gwaith adeiladu ei hun, fel rhan o'r broses o ddarparu'r gwasanaeth. Oni bai eu bod yn arbennig o nodedig, ni ddylai materion o'r fath effeithio'n ormodol ar gyfrifiad y dangosydd, ond mewn achosion lle y bydd hyn yn digwydd, dylai cyfle i ychwanegu cyd-destun godi yn ystod y broses ddilysu.</p>		

Dadelfeniad	Dylai dadelfeniad cael ei ystyried i ddiwallu anghenion y cyd-destun a gwybodaeth leol.
-------------	---

[Yn ôl](#)

Maes gwasanaeth/polisi	Yr Amgylchedd a Chludiant – Rheoli Gwastraff		
Parth	Canlyniadau Strategol		
Cyfeirnod	WMT/S/F/004/05-020 (WMT/004(b))		
Pennawd	Gwastraff Dinesig a gesglir gan yr awdurdod lleol wedi ei ddanfôn at Dirlenwi		
Dangosydd	<i>Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a anfonir i safle tirlenwi</i>		
Canllaw	<p>Am ddiffiniad llawn am Wastraff Dinesig a gesglir gan yr awdurdod lleol, cyfeiriwch at yr Eirfa Rheoli Gwastraff.</p> <p>Mae tirlenwi yn cyfeirio at wastraff wedi'i ddyddodi ar, neu ar strwythur wedi'i osod mewn i arwynebedd y tir, neu o dan arwynebedd y tir.</p> <p>Mae tir yn cynnwys tir wedi'i orchuddio gan ddŵr sydd o dan y marc dŵr isel neu lanwau gwanwyn cyffredin.</p> <p>Cynhwyswch:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Lluch wedi'i ddanfôn at dirlenwi i adfer ynni wrth wastraff dinesig a gesglir gan yr awdurdod lleol • Unrhyw halogiadau ac/neu weddillion wedi'u danfôn at dirlenwi oherwydd aildddefnyddio, ailgylchu neu driniaeth fiolegol o'r gwastraff dinesig, gan gynnwys lle caiff y rhain eu danfôn at dirlenwi gan ddilyn triniaeth gan gcontractwyr. <p>Er eu bod yn cael eu cynnwys yn WasteDataFlow, nid yw cerbydau sy'n cael eu gadael yn wastraff trefol awdurdodau lleol ac ni fyddant yn cyfrannu at ystadegau gwastraff trefol awdurdodau lleol.</p> <p>Ni ddylai compostio gartref cael ei gynnwys yn y dangosydd hwn.</p> <p>Mae'r data ar gyfer y dangosydd hwn yn cael ei ôl-boblogi gyda data o'r flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017. Darperir hyn gan Cyfoeth Naturiol Cymru o WasteDataFlow.</p>		
Cyfrifiad	<p>Rhifiadur: Y tunelledd o wastraff dinesig a gesglir gan yr awdurdod lleol wedi'i anfon at dirlenwi gan yr awdurdod lleol</p> <p>Enwadur: Y tunelledd o wastraff trefol a gasglwyd gan yr awdurdod lleol</p> <p>Fformiwla: $\frac{\text{Rhifiadur}}{\text{Enwadur}} \times 100$</p>		
Ffynhonnell Data	WasteDataFlow	Lle Degol	2
Esboniad	Mae lleihau'r swm a'r canran o wastraff dinesig a gesglir gan yr awdurdod lleol sy'n cael ei ddanfôn at dirlenwi yn flaenoriaeth wladol bwysig, fel sydd wedi'i fanylu yn Strategaeth Gwastraff Cymru. Mae'r dangosydd hwn yn mesur tueddiadau wrth ailgyfeirio gwastraff i ffwrdd o waredu tirlenwi		
Dadelfeniad	Dylai dadelfeniad cael ei ystyried i ddiwallu anghenion y cyd-destun a gwybodaeth leol.		

[Yn ôl](#)

Maes gwasanaeth/polisi	Yr Amgylchedd a Chludiant – Rheoli Gwastraff
Parth	Canlyniadau Strategol
Cyfeirnod	WMT/S/F/009/02-021 (WMT/009(b))
Pennawd	Paratoi i'w aildddefnyddio, Ailgylchu a Chompostio Gwastraff Trefol a gesglir gan yr awdurdod lleol
Dangosydd	<i>Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei aildddefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi eu gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall</i>
Canllaw	<p>Am ddiffiniad llawn am Wastraff Dinesig a gesglir gan yr awdurdod lleol, cyfeiriwch at yr Eirfa Rheoli Gwastraff.</p> <p>Mae 'wedi ei baratoi i'w aildddefnyddio' yn golygu eitemau wedi'u symud o'r llif gwastraff dinesig a gesglir gan yr awdurdod lleol (e.e. dodrefn o gartrefi gan gynnwys hynny wedi ei gasglu ar ran yr awdurdod lleol gan drydydd parti), at ddiben gweithgarwch gwirio, glanhau neu atgyweirio, lle mae cynnyrch neu elfennau nawr yn wastraff ac yn cael eu paratoi i'w haildddefnyddio heb orfod eu prosesu o flaen llaw.</p> <p>Mae ailgylchu gwastraff dinesig a gesglir gan yr awdurdod lleol yn golygu unrhyw weithgarwch adfer lle mae deunydd gwastraff yn cael ei ail-brosesu a'i wneud yn gynnyrch, deunydd neu sylweddau eraill. Nid yw'n cynnwys adfer ynni ac ail-brosesu i'w wneud yn ddeunydd i'w ddefnyddio fel tanwydd neu weithgarwch ôl-lenwi.</p> <p>Mae gwastraff dinesig a gesglir gan yr awdurdod lleol wedi'i gompostio neu wedi'i drin yn fiolegol yn cynnwys gwastraff dinesig bioddiraddadwy a gesglir gan yr awdurdod lleol yn unig sydd wedi'i arwahanu at ei darddiad, ac yn parhau i'w arwahanu yn ystod ei gasgliad a'i driniaeth, a lle caiff ei weddillion solid eu trin yn erobig er mwyn cynhyrchu cynnyrch sefydlog sy'n ffit ei bwrpas fel cynhwysydd pridd neu gyfrwng tyfu.</p> <p>Compostio yw'r sefydlogrwydd a'r pydrad biolegol rheoledig o wastraff dinesig bioddiraddadwy a gesglir gan yr awdurdod lleol dan amodau sydd, yn bennaf, yn erobig ac yn gadael i organebau gwresgar datblygu.</p> <p>Mae triniaethau biolegol eraill yn cynnwys unrhyw bydrad o wastraffau wedi'u harwahanu at eu tarddiad trwy actifedd microbau.</p> <p>Gall awdurdodau lleol cynnwys gwastraff wedi'i gasglu a pharatoi i'w aildddefnyddio, ailgylchir, gompostio neu drin yn fiolegol gan gyrff preifat, cymunedol neu wirfoddol lle bod trefniadau ffurfiol mewn lle gyda'r cyrff hyn.</p> <p>Er eu bod yn cael eu cynnwys yn WasteDataFlow, nid yw cerbydau sy'n cael eu gadael yn wastraff trefol awdurdodau lleol ac ni fyddant yn cyfrannu at ystadegau gwastraff trefol awdurdodau lleol.</p> <p>Ni ddylai compostio gartref cael ei gynnwys yn y dangosydd hwn.</p>

	Mae'r data ar gyfer y dangosydd hwn yn cael ei ôl-boblogi gyda data o'r flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2017. Darperir hyn gan Cyfoeth Naturiol Cymru o WasteDataFlow.		
Cyfrifiad	<p>Rhifiadur: Y tunelledd o wastraff trefol awdurdodau lleol a baratowyd ar gyfer ei aildddefnyddio, ei ailgylchu a/neu ei gasglu fel biowastraff a wahrenir, a'i gompostio neu ei drin yn fiolegol mewn ffordd arall gan yr awdurdod lleol</p> <p>Enwadur: Y tunelledd o wastraff trefol a gasglwyd gan yr awdurdod lleol</p> <p>Fformiwla: $\frac{\text{Rhifiadur}}{\text{Enwadur}} \times 100$</p>		
Ffynhonnell Data	WasteDataFlow	Lle degol	2
Esboniad	Mae lleihau gwastraff, ailgylchu, aildddefnyddio a chompostio yn flaenoriaethau gwladol pwysig, fel sydd wedi'i fanylu yn Strategaeth Gwastraff Cymru. Mae'r dangosydd hwn yn mesur pa mor dda y mae'r awdurdodau yn perfformio overall yn y meysydd hyn.		
Dadelfeniad	Dylai dadelfeniad cael ei ystyried i ddiwallu anghenion y cyd-destun a gwybodaeth leol.		

[Yn ôl](#)

Maes gwasanaeth/polisi	Rheoli Asedau
Parth	Ansawdd Gwasanaeth
Cyfeirnod	CAM/C/F/037/01-001 (CAM/037)
Pennawd	Effeithiolrwydd Ynni
Dangosydd	Canran y newid yn sgôr gyfartalog Tystysgrif Arddangos Ynni o fewn adeiladau cyhoeddus awdurdodau lleol dros 1,000 o fetrau sgwâr
Canllaw	<p>Dywed y Gyfarwyddeb Perfformiad Adeiladau Ewropeaidd (Rheoliad 16) fod Tystysgrif Arddangos Ynni yn ofynnol, o 1af Hydref 2008 ymlaen, i adeiladau cyhoeddus awdurdod o faint penodedig sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus i nifer fawr o bobl ac y mae'r bobl hynny yn ymweld ag ef yn aml.</p> <p>Rhaid i'r Dystysgrif gael ei harddangos yn amlwg er mwyn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am ddefnydd ynni'r adeilad. Rhoddir Gradd Weithredol i'r adeilad sy'n ymwneud â defnydd ynni ac allyriannau CO2 yr adeilad dros gyfnod 12 mis. Mae'r Radd Weithredol yn cyfeirio ar gategori adeilad o A i G, lle mae A yn golygu'r perfformiad gorau a G y perfformiad gwaethaf.</p> <p>I alluogi cymharu adeiladau, mesurir y graddau perfformiad yn ôl allyriannau carbon deuocsid (CO2) sy'n uned gyffredin a all gael ei chyfrif am bob math o danwydd gan ddefnyddio cyfraddau trosi safonol.</p> <p>Adeiladau cyhoeddus awdurdodau lleol fydd adeiladau dros 1,000 o fetrau sgwâr y mae aelodau'r cyhoedd yn eu defnyddio'n aml a lle bo gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb dros gostau a defnydd ynni.</p> <p>Sgôr radd weithredol gyfartalog Tystysgrif Arddangos Ynni yw swm 'NEU' y sgorau am adeiladau cyhoeddus pob awdurdod lleol dros 1,000 o fetrau sgwâr lle mae Tystysgrif Arddangos Ynni wedi cael ei chofnodi ar y Gofrestr Tystysgrifau Perfformiad Ynni Annomestig wedi ei rannu gan nifer yr adeiladau hyn.</p> <p>At ddibenion y dangosydd hwn, dylai'r flwyddyn 'gyffredol' gael ei hadrodd fel y flwyddyn ariannol flaenorol.</p> <p>Sylwch y bydd gostyngiad yn radd gyfartalog y Dystysgrif yn cael ei gyflwyno fel ffigur positif i nodi gwelliant.</p>
Cyfrifiad	<p>Rhifiadur: Y gwahaniaeth yn y sgôr radd weithredol gyfartalog ar gyfer adeiladau cyhoeddus awdurdodau lleol dros 1,000 o fetrau sgwâr lle mae Tystysgrif Arddangos Ynni wedi cael ei chofnodi ar y Gofrestr Tystysgrifau Perfformiad Ynni Annomestig rhwng y flwyddyn ariannol flaenorol a'r flwyddyn ariannol gyffredol</p> <p>Cyfrifir y data hwn fel X – Y, lle: X = Sgôr radd gyfartalog Tystysgrif yn adeiladau cyhoeddus awdurdod lleol dros 1,000 o fetrau sgwar yn y flwyddyn flaenorol</p>

	<p>Y = Sgôr radd gyfartalog Tystysgrif yn adeiladau cyhoeddus awdurdod lleol dros 1,000 o fentrau sgwar yn y flwyddyn gyfredol</p> <p>Enwadur: Sgôr radd DEC gyfartalog mewn adeiladau cyhoeddus awdurdodau lleol dros 1,000 o fentrau sgwar yn y flwyddyn flaenorol</p> <p>Fformiwla: $\frac{\text{Rhifiadur}}{\text{Enwadur}} \times 100$</p>		
Ffynhonnell Data	-	Lle Degol	1
Esboniad	Mae'r dangosydd hwn yn mesur y gwelliant yn effeithlonrwydd ynni adeiladau cyhoeddus awdurdodau lleol dros 1,000 o fetrau sgwâr.		
Dadelfeniad	Dylai dadelfeniad cael ei ystyried i ddiwallu anghenion y cyd-destun a gwybodaeth leol.		

[Yn ôl](#)

Maes gwasanaeth/polisi	Yr Amgylchedd a Chludiant – Gwasanaethau Stryd
Parth	Ansawdd Gwasanaeth
Cyfeirnod	STS/C/F/005b/04-001 (STS/005b)
Pennawd	Glendid priffyrdd
Dangosydd	Canran y priffyrdd a adolygwyd sydd o safon glendid uchel neu dderbyniol
Canllaw	<p>Caiff 'glendid o safon uchel neu dderbyniol' ei diffinio fel ennill Graddau A, B+ neu B o'r Côt Ymarfer Sbwriel (2007), sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gradd A Dim sbwriel • Gradd B+ Dim mwy na 3 darn bach o sbwriel • Gradd B Yn rhydd o sbwriel yn bennaf, ar wahân i rai eitemau bach <p>I gyfrifo'r dangosydd, rhaid i'r arolygon canlynol cael eu cynnal:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 6 arolwg pob deufis wedi'u seilio ar archwiliadau o 2% o'r priffyrdd mabwysiedig yr awdurdod, wedi'u cynnal gan yr awdurdod lleol neu sefydliad wedi'i gontractio i gynnal y gwaith ar ei ran • Arolwg/ygon blynyddol annibynnol wedi'i seilio ar sampl o leiafswm o 6% o'r archwiliadau o'r priffyrdd mabwysiedig awdurdod wedi'i gynnal gan Cadwch Gymru'n Daclus <p>Cynhwyswch yr holl ffyrdd lle'r awdurdod lleol yw'r awdurdod priffyrdd, h.y. yr holl ffyrdd ac eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Traffyrdd • Cefnffyrdd • Ffyrdd preifat ac/neu heb eu mabwysiadu <p>Peidiwch â chynnwys tir sydd dan reolaeth ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol neu ei bwrdd llywodraethwyr, neu dir sydd dan reolaeth cymdeithas tai.</p> <p>Ymgarthion ci i'w trin fel sbwriel.</p> <p>Dylai arolygon delio â thrawsluniau/strydoedd ar gyfer y ffyrdd canlynol o ddefnyddio tir:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Manwerthu, swyddfa, masnachol • Tir ar gyfer tai • Ardaloedd diwydiannol • Hewlydd <p>Cewch hyd i gyfarwyddyd pellach yn Atodiad A y Côt Ymarfer ar Sbwriel a Gwastraff 2007.</p> <p>Ar gyfer yr arolygon pob deufis:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylai o leiaf 2% o'r strydoedd cael eu harchwilio bob deufis. Gall y sampl ar hap ddelio â'r un strydoedd mewn gwahanol fisoedd (e.e. fe all y samplau croesi), neu hyd yn oed yn golygu dau archwiliad ar wahanol fannau o'r un stryd o fewn yr un mis, lle credir bod hyn yn briodol ar gyfer strydoedd hirach neu fwy prysur. Ond rhaid i'r nifer o archwiliadau fod yn gyfwerth â 2% o gyfanswm y nifer o strydoedd yn yr awdurdod.

	<ul style="list-style-type: none"> Rhaid i'r rhaglen sampl fod yn gynrychiadol o'r holl awdurdod o ran lleoliad y strydoedd a chytbwysedd y strydoedd. Dylai'r archwiliadau cael eu cynnal ar wahanol amseroedd - ac eithrio monitro wedi'i gynnal ar ôl glanhau at bwrpas monitro cytundeb glanhau'r strydoedd. Er hynny, byddai monitro ar hap o gontract sydd wedi ei seilio ar allbwn yn dderbyniol. <p>'Archwiliad' yw archwiliad gweledol o hyd stryd 50 metr (trawslun) yn erbyn safonau ffotograffig wedi'u nodi yn y Côt Ymarfer ar Sbwriel (2007) neu unrhyw fersiwn diwygiedig o'r Côt. Caiff y strydoedd eu graddio fel naill ai Gradd A, Gradd B+, Gradd B, Gradd C neu Gradd D.</p> <p>Ar gyfer yr arolygon annibynnol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Disgwylir awdurdodau lleol i roi rhestr o'r holl briffyrdd mabwysiedig ar gyfer y ffyrdd uchod o ddefnyddio tir i Cadwch Cymru'n Daclus erbyn 1 Ebrill pob blwyddyn. Dylai'r rhestr nodi ym mha ffordd y mae'r tir yn cael ei ddefnyddio ble mae'r priffyrdd yn cwmpo ynddo Fe fydd Cadwch Gymru'n Daclus yn cynnal arolwg/ygon angyhoeddedig o 6% o briffyrdd. Fe fydd Cadwch Gymru'n Daclus yn darparu adroddiad i'r Awdurdod Lleol perthnasol o'r arolwg/ygon o fewn 1 mis o gwblhau'r arolwg. 			
Cyfrifiad	<p>Rhifiadur: Nifer yr archwiliadau o briffyrdd oedd â safon glendid uchel neu dderbyniol</p> <p>Enwadur: Cyfanswm nifer yr archwiliadau o briffyrdd</p> <p>Fformiwla: $\frac{\text{Rhifiadur}}{\text{Enwadur}} \times 100$</p>			
Ffynhonnell Data	<table border="1" style="width: 100%; border-collapse: collapse;"> <tr> <td style="width: 60%; text-align: center;">-</td> <td style="width: 20%; text-align: center;">Lle Degol</td> <td style="width: 20%; text-align: center;">1</td> </tr> </table>	-	Lle Degol	1
-	Lle Degol	1		
Esboniad	Mae'r dangosydd yn mesur cyfrannedd y strydoedd o fewn ffiniau'r awdurdod lleol sydd o safon glendid derbyniol			
Dadelfeniad	Dylai dadelfeniad cael ei ystyried i ddiwallu anghenion y cyd-destun a gwybodaeth leol			

[Yn ôl](#)

Maes gwasanaeth/polisi	Yr Amgylchedd a Chludiant – Cludiant a Phrifyrdd
Parth	Ansawdd Gwasanaeth
Cyfeirnod	THS/C/F/012/01-002 (THS/012)
Pennawd	Cyflwr ffyrdd
Dangosydd	Canran y prif ffyrdd (A), ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) a ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol
Canllaw	<p>Mae'r ffigur ar gyfer y dangosydd hwn yn cynrychioli canran o hyd y rhwydwaith ffyrdd sy'n gyfartal i, neu'n uwch na'r trothwy COCH e.e. sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol ac sydd angen gwaith cynnal a chadw yn fuan e.e. o fewn blwyddyn ar sail 'gwaethaf yn gyntaf'.</p> <p>Dylai'r awdurdodau lleol gynnal yr arolygon yn ystod yr un amser pob blwyddyn i leihau'r amrywiaethau oherwydd effeithiau tymhorol a dylanwad y rhaglen waith.</p> <p>Dylai awdurdodau lleol fynnu fod contractwyr yr arolwg yn cydymffurfio â gofynion Sicrwydd Ansawdd Scanner a gweithdrefnau archwilio sy'n ffurfio rhan o Fanylyn Scanner.</p> <p>Dim ond data wedi'i gasglu wrth ddefnyddio offer arolwg sydd â Thystysgrif Gymeradwy Scanner ddilys, sydd yn datgan yn glir fod yr offer yn gymeradwy i'w ddefnyddio i gynhyrchu Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau, all gael ei ddefnyddio i gyfrifo'r dangosydd hwn.</p> <p>Mae cyfarwyddyd manwl ar sut i gynhyrchu'r wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn adrodd y dangosydd hwn ar gael yn y nodyn Technegol UKPMS perthnasol.</p> <p>Bydd y ffigurau yn deillio o arolygon Scanner (arolygon SCANNER gynt) wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn ariannol.</p> <p>Mae'r gosodiadau canlynol yn gymwys ar gyfer rhaglennu ac adrodd yr arolygon Scanner o brif ffyrdd (A):</p> <ul style="list-style-type: none"> • Targed: 100% o'r rhwydwaith gall cael eu hadologu i'w adolygu mewn un cyfeiriad, neu 50% yn y ddau gyfeiriad. Rhaid i brif ffyrdd na chafodd eu harolygu'r flwyddyn gynt cael eu harolygu yn y flwyddyn gyfredol; • Rhaid i'r arolygon fod yn achrededig gan Scanner, a system llwybr achrededig gan UKPMS ei defnyddio i gynhyrchu'r adroddiad; • Rhaid i'r dangosydd ddeillio o arolygon sy'n delio â lleiafswm o 90% o 'hyd y lonydd y mae'n bosib eu harolygu' (fel y diffinnir yn Nodyn Technegol 43) dros y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf. • Bydd holl wynebaw ffyrdd yn cael eu cynnwys. <p>Mae'r gosodiadau canlynol yn gymwys ar gyfer rhaglennu ac adrodd arolygon Scanner o ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd/ffyrdd dosbarthedig (B);</p> <ul style="list-style-type: none"> • Targed: 100% o'r rhwydwaith (B) gall cael eu hadologu i'w

	<p>adolygu mewn un cyfeiriad, neu 50% yn y ddau gyfeiriad. Rhaid i ffyrdd sydd ddim yn brif ffyrdd/ ffyrdd dosbarthedig (B) na chafodd eu harolygu'r flwyddyn gynt cael eu harolygu yn y flwyddyn gyfredol;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i'r arolygon fod yn achrededig gan Scanner, a system llwybr achrededig gan UKPMS ei defnyddio i gynhyrchu'r adroddiad; • Rhaid i'r dangosydd ddeillio o arolygon sy'n delio â lleiafswm o 90% o 'hyd y lonydd sy'n cael ei harolygu posib' dros y ddwy flwyddyn ddiwethaf ar gyfer ffyrdd dosbarthedig B. Caiff 'hyd y lonydd y mae'n bosib eu harolygu' ei diffinio yn Nodyn Technegol 43 (Saesneg yn unig) • Bydd holl wynebau ffyrdd yn cael eu cynnwys. <p>Mae'r darpariaethau canlynol yn gymwys ar gyfer rhaglennu ac adrodd arolygon Scanner o ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd/ ffyrdd dosbarthedig (C):</p> <ul style="list-style-type: none"> • Targed: 50% o'r rhwydwaith (C) i'w adolygu mewn un cyfeiriad, neu 25% yn y ddau gyfeiriad. Rhaid i ffyrdd sydd ddim yn brif ffyrdd/ ffyrdd dosbarthedig (C) na chafodd eu harolygu'r flwyddyn gynt cael eu harolygu yn y flwyddyn gyfredol; • Rhaid i'r arolygon fod yn achrededig gan Scanner, a system llwybr achrededig gan UKPMS ei defnyddio i gynhyrchu'r adroddiad; • Rhaid i'r dangosydd ddeillio o arolygon sy'n delio â lleiafswm o 80% o 'hyd y lonydd sy'n cael ei harolygu posib' dros y bedair blynedd diwethaf ar gyfer ffyrdd dosbarthedig C. Caiff 'hyd y lonydd y mae'n bosib eu harolygu' ei diffinio yn Nodyn Technegol 43. • Bydd holl wynebau ffyrdd yn cael eu cynnwys
Cyfrifiad	<p>Rhifiadur: Cyfanswm hyd y prif ffyrdd (A), ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) a ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sy'n uwch na, neu'n gyfartal â'r trothwy COCH (Kms)</p> <p>Caiff y rhifiadur ei gyfrifo fel $(X+Y+Z)$, lle: X = Cyfanswm hyd y prif ffyrdd (A) sy'n uwch na, neu'n gyfartal i'r trothwy COCH (Kms) (O'r blaen, THS/011aN) Y = Cyfanswm hyd y ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd/ ffyrdd dosbarthedig (B) sy'n uwch na, neu'n gyfartal i'r trothwy COCH (Kms) (O'r blaen, THS/011bN) Z = Cyfanswm hyd ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sy'n uwch na neu'n gyfartal â'r trothwy COCH (Kms) (O'r blaen, THS/011cN)</p> <p>Enwadur: Cyfanswm hyd y prif ffyrdd (A), ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) a ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) wedi'u harolygu (kms)</p> <p>Caiff yr enwadur ei gyfrifo fel $(A+B+C)$, lle: A = Cyfanswm hyd y prif ffyrdd (A) wedi'u harolygu (kms) (O'r blaen, THS/011aD) B = Cyfanswm hyd y ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd/ ffyrdd dosbarthedig (B) wedi'u harolygu (kms) (O'r blaen, THS/011bD) C = Cyfanswm hyd y ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) wedi eu</p>

	harolygu (Kms) (O'r blaen, THS/011cD)		
	Fformiwla: $\frac{\text{Rhifiadur}}{\text{Enwadur}} \times 100$		
Ffynhonnell Data	-	Lle Degol	1
Esboniad	I roi amcan o gyfradd y ffyrdd sydd angen gwaith cadw a chynnal wedi'i gynllunio o flaen llaw yn fuan		
Dadelfeniad	Dylai dadelfeniad cael ei ystyried i ddiwallu anghenion y cyd-destun a gwybodaeth leol		

[Yn ôl](#)

Maes gwasanaeth/polisi	Gwasanaethau Cynllunio a Rheoli – Diogelu’r Cyhoedd
Parth	Canlyniadau Strategol
Cyfeirnod	PPN/C/F/009/01-003 (PPN/009)
Pennawd	Mangreoedd bwyd sy’n cydymffurfio’n fras
Dangosydd	Canran y sefydliadau bwyd sy’n ‘cydymffurfio’n fras’ â safonau hylendid bwyd
Canllaw	<p>Mae’r asesiadau sy’n cael eu cynnal mewn sefydliadau bwyd i asesu’r lefel y maent yn cydymffurfio â chyfraith bwyd yn seiliedig ar y system gyfradd risg fel sydd yn Atodiad 5 o God Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru 2008).</p> <p>Fel bod buses bwyd yn ‘cydymffurfio’n fras’ yn nhermau hylendid bwyd, rhaid iddo dderbyn sgôr o ddim mwy na 10 pwynt ar gyfer pob un o’r tri factor canlynol:</p> <p>(a) Lefel y cydymffurfiad cyfredol gyda rhwymedigaethau statudol ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Gofynion hylendid (gan gynnwys ymdriniaethau a gweithdrefnau bwyd a rheoli tymheredd), a (ii) Gofynion strwythurol (gan gynnwys glendid, gosodiad, cyflwr y strwythur, goleuadau, awyriad, cyfleusterau a.y.b); a <p>(b) hyder gyda rheoli/rheolaeth systemau</p> <p>Yn nhermau hylendid a strwythur bwyd, caiff sgôr o 10 ei ddiffinio fel “... peth diffyg cydymffurfiad â gofynion statudol a chodau diwydiannol ar gyfer arferion argymelledig. Safonau’n cael eu cynnal, neu eu gwella”.</p> <p>Ar gyfer hyder â gweithdrefnau rheoli, caiff sgôr o 10 ei ddiffinio fel - “cofnod boddhaol o gydymffurfiad. Mynediad at, a defnydd o gyngor technegol naill ai’n fewnol, o gymdeithasau masnach ac/neu o Ganllawiau Arferion Da. Deall pryderon arwyddocaol, gyda mesuriadau rheoli mewn lle. Cynnydd boddhaol gyda gweithio tuag at systemau/gweithdrefnau dogfennol gyda’r math o fusnes.</p> <p>Ffactorau a fydd yn dylanwadu ar farn yr archwiliwr yn nhermau hyder â rheoli yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cofnod gorffennol y cwmni, a’i barodrwydd i gymryd camau ar gyngor blaenorol, a gorfodaeth a chydymffurfiad hanesyddol; • agwedd y rheolaeth flaenorol gyda hylendid a diogelwch bwyd; a • gwybodaeth dechnegol ar hylendid a diogelwch bwyd ar gael i’r cwmni (yn fewnol neu’n allanol), gan gynnwys dadansoddiad peryglon/HACCP a rheoli trobwyntiau; • gweithdrefnau boddhaol yn seiliedig ar HACCP. <p>Ar gyfer y rhifiadur a’r enwadur, mae cyfanswm y nifer o sefydliadau bwyd yn cyfeirio at gyfanswm nifer y sefydliadau bwyd y mae’r awdurdod yn gyfrifol amdano, nid dim ond y</p>

	<p>rheiny a wnaeth dderbyn ymyriad yn ystod y flwyddyn.</p> <p>I sicrhau cysondeb â'r Asiantaeth Safonau Bwyd, dylai'r canlynol gael eu heithrio o'r rhifiadur a'r enwadur fel ei gilydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • eiddo sydd wedi eu hasesu fel bod "tu allan i'r rhaglen" am nad oes ganddynt dim neu ddim digon o risgi'w arolygu; • eiddo sydd heb eu graddio ar 31 Mawrth; • eiddo a geuwyd yn ystod y flwyddyn ariannol; ac • eiddo sydd wedi eu cofrestru tu allan i'r ardal, sy'n ymweld at ddibenion masnachu. 		
Cyfrifiad	<p>Rhifiadur: Nifer y sefydliadau bwyd yn yr awdurdod lleol wedi eu pennu eu bod yn cydymffurfio'n fras, yn ystod y flwyddyn ac sy'n dal i fasnachu ar 31 Mawrth</p> <p>Enwadur: Cyfanswm y sefydliadau bwyd sy'n masnachu ar 31 Mawrth</p> <p>Fformiwla: $\frac{\text{Rhifiadur}}{\text{Enwadur}} \times 100$</p>		
Ffynhonnell Data	-	Lle Degol	2
Esboniad	<p>I ddiogelu iechyd y cyhoedd wrth sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn ffit i'w fwyta gan fonitro perfformiad awdurdodau lleol wrth gynyddu cydymffurfiad mewn sefydliadau bwyd â'r gyfraith.</p> <p>Mae'r dangosydd hwn yn mesur effeithlonrwydd ymyriadau diogelwch bwyd gan awdurdodau lleol â chydymffurfiad diogelwch bwyd yn hytrach na mesur cyfraniad, megis archwiliadau.</p>		
Dadelfeniad	<p>Dylai dadelfeniad cael ei ystyried i ddiwallu anghenion y cyddestun a gwybodaeth leol.</p>		

[Yn ôl](#)

Maes gwasanaeth/polisi	Addysg
Parth	Canlyniadau Strategol
Cyfeirnod	EDU/S/F/002/08-014 (EDU/002i)
Pennawd	Disgyblion sy'n gadael addysg orfodol heb gymhwyster allanol wedi'i gymeradwyo, ac nad ydynt yn parhau mewn addysg llawn amser, hyfforddiant na dysgu seiliedig ar waith
Dangosydd	<i>Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol) sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol, ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol cymeradwy.</i>
Canllaw	<p>Cymwysterau allanol cymeradwy yw unrhyw gymhwyster wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru dan adran 99 o'r Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, at ddibenion adran 96 o'r Ddeddf. Mae rhestr gyflawn o'r cymwysterau allanol cymeradwy ar gael ar wefan Cymwysterau yng Nghymru (QiW).</p> <p>Caiff dysgu seiliedig ar waith ei ddiffinio fel 'proses o weithgareddau wedi'u cynllunio sy'n cael eu gweithredu yn y gweithle, ac sydd wedi'u cynllunio'n arbennig ar gyfer datblygu gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau sy'n berthnasol i alwedigaethau penodol yn y farchnad lafur, neu'n berthnasol yn gyffredinol i gyfraniad effeithiol yn y farchnad honno.' Mae hyn yn cynnwys dysgu seiliedig ar waith llawn amser a rhan amser.</p> <p>Cynhwyswch ddisgyblion mewn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgolion uwchradd; • Ysgolion canol; • Ysgolion arbennig: ac • Unedau Cyfeirio Disgyblion. <p>Gall disgyblion y nodwyd eu bod o gefndir addysgol di-Gymraeg neu ddi-Saesneg gael eu heithrio. Dyma'r meini prawf a ddefnyddir i nodi disgyblion 'cymwys':</p> <ul style="list-style-type: none"> • nid Saesneg na Chymraeg yw iaith gyntaf y disgybl; • mae'r disgybl wedi dod o system addysg ddi-Gymraeg neu ddi-Saesneg; ac • wedi cyrraedd y DU ar neu ar ôl ddechrau'r flwyddyn ysgol flaenorol. <p>Er enghraifft, efallai y bydd disgyblion sy'n cyrraedd diwedd cyfnod allweddol yn haf 2016 yn gymwys ar gyfer y statws hwn os gwnaethant gyrraedd y DU ar neu ar ôl 1 Medi 2014.</p> <p>Penaethiaid sy'n gyfrifol o hyd am gofrestru bod disgyblion wedi dod o system addysg ddi-Gymraeg neu ddi-Saesneg. Ni fydd y disgyblion hynny sy'n cael eu cofrestru yn cael eu cynnwys yng nghanlyniadau unrhyw bwnc h.y. unwaith y cofrestrir bod disgybl wedi dod o system addysg ddi-Gymraeg neu ddi-Saesneg, caiff ei ganlyniadau eu diystyru o safbwynt unrhyw berfformiad ar lefel awdurdod lleol tra pery'r statws hwnnw.</p>

	<p>Dylai'r disgyblion hyn gael eu heithrio o'r rhifiadur a'r enwadur.</p> <p>Plant sydd wedi derbyn gofal unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn academaidd yw disgyblion dan ofal yr awdurdod lleol. Eithriwch ddisgyblion sydd wedi derbyn gofal dan gyfres o leoliadau byrdymor (gofal seibiant), oni bai eu bod wedi derbyn gofal am 120 diwrnod yn olynol mewn un lleoliad.</p>		
Cyfrifo	<p>Rhifiadur: Nifer y disgyblion 15 oed ar 31 Awst, ac ar gofrestr unrhyw ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol ar ddiwrnod y Cyfrifiad Ysgol blynyddol ym mis Ionawr, sy'n gadael addysg orfodol heb gymhwyster allanol cymeradwy, ac nad ydynt yn parhau mewn addysg, hyfforddiant na dysgu seiliedig ar waith</p> <p>Enwadur: Cyfanswm y disgyblion 15 oed ar 31 Awst ac ar gofrestr unrhyw ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol ar ddiwrnod y Cyfrifiad Ysgol blynyddol ym mis Ionawr</p> <p>Fformiwla: $\frac{\text{Rhifiadur}}{\text{Enwadur}} \times 100$</p>		
Dilysu	<p>Bydd angen esbonio gwerthoedd dangosyddion sy'n ymddangos yn arbennig o uchel neu'n arbennig o isel o gymharu â set data Cymru gyfan ar gyfer y flwyddyn flaenorol.</p> <p>Bydd angen esbonio rhifiaduron ac enwaduron sydd wedi newid yn sylweddol ers y flwyddyn flaenorol. Caiff arwyddocâd ei bennu yn y cyd-destun hwn drwy ystyried newidiadau yng ngwerthoedd Cymru mewn blynyddoedd blaenorol.</p>		
Ffynhonnell y Data	Enwadur: Tîm Dadansoddi - Addysg a Sgiliau (Ysgolion) Llywodraeth Cymru	Lle Degol	1
Esboniad	<p>Bydd y dull newydd o ymdrin ag addysg ar gyfer disgyblion 14 -19 oed yn caniatáu mwy o amrywiaeth o ran yr hyn sy'n yn cael ei dysgu, ac fe ddylai lleihau nifer y disgyblion, yn enwedig y rheini sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, sy'n gadael addysg heb gymhwyster cymeradwy.</p> <p>Mae'r dangosydd hwn yn mesur effeithiolrwydd yr agenda newydd hon o safbwynt yr awdurdod addysg. Ymdrinnir â dylanwad y rhiant corfforaethol ar addysg yn y dangosyddion Gofal Cymdeithasol – Gwasanaethau i Blant.</p>		
Dadgyfuno	<p>Dylid dadgyfuno yn ôl cyd-destun a gwybodaeth leol. Dyma rai meysydd i'w hystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhyw • Iaith • Ethnigrwydd • Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) • Ysgol • Disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim 		

[Yn ôl](#)

Maes gwasanaeth/polisi	Addysg
Parth	Canlyniadau Strategol
Cyfeirnod	EDU/C/F/003/07-015 (EDU/003)
Pennawd	Aseidiadau Cyfnod Allweddol 2
Dangosydd	<i>Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Aseidiadau Athrawon</i>
Canllaw	<p>Mae ysgol yn gyfrifol am adrodd canlyniadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer yr holl ddisgyblion ar ei rhestr ysgol fel ar yr ail ddydd Mawrth ym Mai a'u haddysgu ym mlwyddyn cwricwlwm cenedlaethol 6: caiff hyn ei alw yn 'ddyddiad penodol ar restr'.</p> <p>I lwyddo'r Dangosydd Pwnc Craidd, rhaid i ddisgyblion ennill lefel 4 neu'n uwch ym mhob un o bynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol, sef Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth, mewn cyfuniad.</p> <p>Rhaid i ysgolion asesu disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 mewn naill ai Saesneg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith, neu Gymraeg iaith gyntaf a Saesneg, yn unol â'r iaith y mae'r disgybl yn cael ei addysgu, neu ei iaith 'statudol'. Caiff hyn ei ddiffinio fel rhan o'r dychweliad CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion). Yng Nghyfnod Allweddol 2, os yw canlyniadau ar gyfer Saesneg a Chymraeg iaith gyntaf ar gael, caiff yr uchaf o'r ddau ei ddefnyddio i gyfrifo'r Dangosydd Pwnc Craidd.</p> <p>Eithriwch ddisgyblion wedi'u canfod yn y Casgliad Data Cenedlaethol (NDC) o gefndir addysgiadol di-Gymreig/Seisnig Dyma'r meini prawf sy'n canfod os yw disgybl yn 'gymwys':</p> <ul style="list-style-type: none"> • nid yw iaith gyntaf y disgybl yn Saesneg na Chymraeg; • mae'r disgybl yn dod o gefndir addysgiadol di-Gymreig/Seisnig • wedi cyrraedd yn y DU ar neu ar ôl ddechrau'r flwyddyn ysgol flaenorol. <p>Er enghraifft, efallai y bydd disgyblion sy'n cyrraedd diwedd cyfnod allweddol yn haf 2016 fod yn gymwys ar gyfer y statws hwn os wnaethant gyrraedd y DU ar, neu ar ôl 1 Medi 2014.</p> <p>Mae penaethiaid o hyd yn gyfrifol am gofrestru bod disgyblion wedi dod o system addysgiadol di-Gymreig/Seisnig. Ni fydd y disgyblion hynny sy'n cael eu cofrestru fel y cyfryw yn cael eu cynnwys yng nghanlyniadau unrhyw bwnc h.y. unwaith i ddisgybl gael ei gofrestru ei fod wedi dod o system addysgiadol di-Gymreig/Seisnig, caiff ei ganlyniadau eu hanwybyddu o lefel berfformiad unrhyw awdurdod lleol tra i'r statws hynny fod y nghymwys.</p>

	<p>Dylai'r disgyblion hyn cael eu heithrio o'r rhifiadur a'r enwadur.</p> <p>Dylai'r holl ddisgyblion eraill gan gynnwys y rheiny o ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion cael eu cynnwys yn y DP hwn yn ddifater o'r canlyniad.</p> <p>Mae'r data ar gyfer y dangosydd hwn yn cael ei gyn-boblogi o ddata a gasglwyd gan Tîm Dadansoddi Addysg a Sgiliau (Ysgolion) Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn flaenorol.</p>		
Cyfrifiad	<p>Rhifiadur: Nifer y disgyblion wedi'u hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion wedi'u cynnal gan yr awdurdod lleol, yn ennill y Dangosydd Pwnc Craidd, yn ôl penderfyniad Asesiad Athro</p> <p>Enwadur: Cyfanswm nifer y disgyblion wedi'u hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion wedi'u cynnal gan yr awdurdod lleol.</p> <p>Fformiwla: $\frac{\text{Rhifiadur}}{\text{Enwadur}} \times 100$</p>		
Dilysiad	<p>Bydd angen esbonio gwerthoedd dangosyddion sy'n ymddangos yn arbennig o uchel neu isel o gymharu â set data Cymru gyfan ar gyfer y flwyddyn flaenorol.</p> <p>Bydd angen esbonio rhifiaduron ac enwaduron sydd wedi newid yn sylweddol ers y flwyddyn flaenorol. Caiff arwyddocâd ei bennu yn y cyd-destun hwn drwy ystyried newidiadau yng ngwerthoedd Cymru mewn blynyddoedd blaenorol.</p>		
Ffynhonnell Data	Tîm Dadansoddi Addysg a Sgiliau (Ysgolion) Llywodraeth Cymru	Lle Degol	1
Esboniad	<p>Mae cyrhaeddiad addysgol yn flaenoriaeth wladol bwysig, ac yn cysylltu gyda nifer o amcanion strategol eraill, megis lleihau diweithdra a dieithrio cymdeithasol.</p> <p>Mae'r dangosydd hwn yn rhoi 'cip olwg' o berfformiad ar ddiwedd addysg gynradd ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.</p> <p>Bydd trefniadau cymedroli yn cael eu cryfhau dros y blynyddoedd i ddod er mwyn sicrhau cysondeb a chymaroldeb data wedi'i seilio ar asesiad athro.</p>		
Dadelfeniad	<p>Dylai dadelfeniad cael ei ystyried i ddiwallu anghenion y cyd-destun a gwybodaeth leol. Dyma rai meysydd i'w hystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhyw • Iaith • Ethnigrwydd • Anghenion Addysg Arbennig (AAA) • Plant Sy'n Derbyn Gofal (Yn cael eu haddysgu gan yr awdurdod lleol) • Ysgol • Disgyblion sy'n gymwys am brydau bwyd ysgol am ddim 		

[Yn ôl](#)

Maes gwasanaeth/polisi	Addysg
Parth	Canlyniadau Strategol
Cyfeirnod	EDU/C/F/004/06-010 (EDU/004)
Pennawd	Asesiadau Cyfnod Allweddol 3
Dangosydd	Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon
Canllaw	<p>Mae ysgol yn gyfrifol am adrodd canlyniadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 ar gyfer yr holl ddisgyblion ar ei rhestr ysgol fel ar yr ail ddydd Mawrth ym Mai a'u haddysgu ym mlwyddyn cwricwlwm cenedlaethol 9: caiff hyn ei alw yn 'ddyddiad penodol ar restr'.</p> <p>I lwyddo'r Dangosydd Pwnc Craidd, rhaid i ddisgyblion ennill lefel 5 neu'n uwch ym mhob un o bynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol, sef Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), Mathemateg a Gwyddoniaeth, mewn cyfuniad.</p> <p>Rhaid i ysgolion asesu disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 mewn naill ai Saesneg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith, neu Gymraeg iaith gyntaf a Saesneg, yn unol â'r iaith y mae'r disgybl yn cael ei addysgu, neu ei iaith 'statudol'. Caiff hyn ei ddiffinio fel rhan o'r dychweliad CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion). Yng Nghyfnod Allweddol 3, os yw canlyniadau ar gyfer Saesneg a Chymraeg iaith gyntaf ar gael, caiff yr uchaf o'r ddau ei ddefnyddio i gyfrifo'r Dangosydd Pwnc Craidd.</p> <p>Eithriwch ddisgyblion wedi'u canfod yn y Casgliad Data Cenedlaethol (NDC) o gefndir addysgiadol di-Gymreig/Seisnig. Dyma'r meini prawf sy'n canfod os yw disgybl yn 'gymwys':</p> <ul style="list-style-type: none"> • nid yw iaith gyntaf y disgybl yn Saesneg na Chymraeg; • mae'r disgybl yn dod o gefndir addysgiadol di-Gymreig/Seisnig; ac • wedi cyrraedd yn y DU ar neu ar ôl ddechrau'r flwyddyn ysgol flaenorol. <p>Er enghraifft, efallai y bydd disgyblion sy'n cyrraedd diwedd cyfnod allweddol yn haf 2010 fod yn gymwys ar gyfer y statws hwn os wnaethant gyrraedd y DU ar, neu ar ôl 1 Medi 2008.</p> <p>Mae penaethiaid o hyd yn gyfrifol am gofrestru bod disgyblion wedi dod o system addysgiadol di-Gymreig/Seisnig. Ni fydd y disgyblion hynny sy'n cael eu cofrestru fel y cyfryw yn cael eu cynnwys yng nghanlyniadau unrhyw bwnc h.y. unwaith i ddisgybl gael ei gofrestru ei fod wedi dod o system addysgiadol di-Gymreig/Seisnig, caiff ei ganlyniadau eu hanwybyddu o lefel berfformiad unrhyw awdurdod lleol tra i'r statws hynny fod y nghymwys.</p> <p>Dylai'r disgyblion hyn cael eu heithrio o'r rhifiadur a'r enwadur.</p>

	Dylai'r holl ddisgyblion eraill gan gynnwys y rheiny o ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion cael eu cynnwys yn y DP hwn yn ddifater o'r canlyniad.		
Cyfrifiad	<p>Rhifiadur: Nifer y disgyblion wedi'u hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion wedi'u cynnal gan yr awdurdod lleol, yn ennill y Dangosydd Pwnc Craidd, yn ôl penderfyniad Aseiad Athro</p> <p>Enwadur: Cyfanswm nifer y disgyblion wedi'u hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion wedi'u cynnal gan yr awdurdod lleol.</p> <p>Fformiwla: $\frac{\text{Rhifiadur}}{\text{Enwadur}} \times 100$</p>		
Ffynhonnell Data	Uned Ystadegau Addysg a Dysgu Gydol Oes (ELLS1)	Lle Degol	1
Esboniad	<p>Mae cyrhaeddiad addysgol yn flaenoriaeth wladol bwysig, ac yn cysylltu gyda nifer o amcanion strategol eraill, megis lleihâi diweithdra a dieithrio cymdeithasol.</p> <p>Ystyrir y dangosydd hwn yn ail brif gam ym mharhad perfformiad Cyfnod Allweddol 2 i 4. Mae'n gadael i ychwanegu gwerth gael ei fedryddu yn ystod cyfnod cyntaf addysg uwchradd.</p> <p>Mae trefniadau cymedroli yn cael eu cryfhau dros y blynyddoedd i ddod er mwyn sicrhau cysondeb a chymaroldeb data wedi'i seilio ar aseiad athro</p>		
Dadelfeniad	<p>Dylai dadelfeniad cael ei ystyried i ddiwallu anghenion y cyd-destun a gwybodaeth leol. Dyma rai meysydd i'w hystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhyw • Iaith • Ethnigrwydd • Anghenion Addysg Arbennig (AAA) • Plant Sy'n Derbyn Gofal (Yn cael eu haddysgu gan yr awdurdod lleol) • Ysgol • Disgyblion sy'n gymwys am brydau bwyd ysgol am ddim 		

[Yn ôl](#)

Maes gwasanaeth/polisi	Addysg
Parth	Canlyniadau Strategol
Cyfeirnod	EDU/S/F/011/06-017 (EDU/011)
Pennawd	Sgôr pwyntiau
Dangosydd	<i>Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol</i>
Canllaw	<p>Cynhwyswch unrhyw gymwysterau allanol a gymeradwywyd ar gyfer disgyblion, dan adran 99 o'r Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, at ddibenion adran 96 o'r Ddeddf honno. Cynhwyswch gymwysterau a enillwyd cyn cyrraedd 15 oed.</p> <p>Cewch hyd i fanylion am y cymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru ar wefan Llywodraeth Cymru.</p> <p>Mae manylion am werth y pwyntiau ar gyfer cymwysterau ar gael wrth ddefnyddio gwefan Cronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy Cymru (DAQW).</p> <p>Mae pob cymhwyster yn cael sgôr sy'n cynrychioli 'maint' a 'her'. Mae'r maint yn seiliedig yn bennaf ar yr oriau o ddysgu dan arweiniad sydd eu hangen i gwblhau'r cwrs. Mae'r her yn seiliedig ar Lefel y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol ac unrhyw wahaniaeth gradd o fewn y cymhwyster. Er enghraifft, mae gan TGAU amrediad pwyntiau rhwng 6 a 58 pwynt, yn dibynnu ar y radd a geir (G - A*).</p> <p>Cynhwyswch ddisgyblion mewn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgolion uwchradd; • Ysgolion canol; • Ysgolion arbennig: ac • Unedau Cyfeirio Disgyblion <p>Gall disgyblion y nodwyd eu bod o gefndir addysgol di-Gymraeg neu ddi-Saesneg gael eu heithrio. Dyma'r meini prawf a ddefnyddir i nodi disgyblion 'cymwys':</p> <ul style="list-style-type: none"> • nid Saesneg na Chymraeg yw iaith gyntaf y disgybl; • mae'r disgybl wedi dod o system addysg ddi-Gymraeg neu ddi-Saesneg; ac • wedi cyrraedd y DU ar neu ar ôl ddechrau'r flwyddyn ysgol flaenorol. <p>Er enghraifft, efallai y bydd disgyblion sy'n cyrraedd diwedd cyfnod allweddol yn haf 2016 yn gymwys ar gyfer y statws hwn os gwnaethant gyrraedd y DU ar neu ar ôl 1 Medi 2014.</p> <p>Penaethiaid sy'n gyfrifol o hyd am gofrestru bod disgyblion wedi dod o system addysg ddi-Gymraeg neu ddi-Saesneg. Ni fydd y disgyblion hynny sy'n cael eu cofrestru yn cael eu cynnwys yng nghanlyniadau unrhyw bwnc h.y. unwaith y cofrestrir bod disgybl wedi dod o system addysg ddi-Gymraeg neu ddi-Saesneg, caiff ei ganlyniadau eu diystyru o safbwynt unrhyw berfformiad ar lefel awdurdod lleol tra pery'r statws hwnnw.</p> <p>Dylai'r disgyblion hyn cael eu heithrio o'r rhifiadur a'r enwadur.</p> <p>Mae'r data ar gyfer y dangosydd hwn yn cael ei lenwi ymlaen llaw â data a gasglwyd gan Dîm Dadansoddi - Addysg a Sgiliau (Ysgolion) Llywodraeth Cymru.</p>

Cyfrifo	<p>Rhifiadur: Cyfanswm y pwyntiau a sgoriwyd mewn cymwysterau allanol cymeradwy gan yr holl ddisgyblion 15 oed ar 31 Awst ac ar y gofrestr mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol ar ddiwrnod y Cyfrifiad Ysgol blynyddol ym mis Ionawr.</p> <p>Enwadur: Cyfanswm y disgyblion 15 oed ar 31 Awst ac ar gofrestr unrhyw ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol ar ddiwrnod y Cyfrifiad Ysgol blynyddol ym mis Ionawr.</p> <p>Fformiwla: <u>Rhifiadur</u> Enwadur</p>		
Dilysu	<p>Bydd angen esbonio gwerthoedd dangosyddion sy'n ymddangos yn arbennig o uchel neu'n arbennig o isel o gymharu â set data Cymru gyfan ar gyfer y flwyddyn flaenorol.</p> <p>Bydd angen esbonio rhifiaduron ac enwaduron sydd wedi newid yn sylweddol ers y flwyddyn flaenorol. Caiff arwyddocâd ei bennu yn y cyd-destun hwn drwy ystyried newidiadau yng ngwerthoedd Cymru mewn blynyddoedd blaenorol.</p>		
Ffynhonnell y Data	<p>Rhifiadur: Tîm Dadansoddi - Addysg a Sgiliau (Ysgolion) Llywodraeth Cymru (o Gronfa Ddata Arholiadau Cymru)</p> <p>Enwadur: Data CYBLD Llywodraeth Cymru (Tîm Dadansoddi - Addysg a Sgiliau (Ysgolion))</p>	Lle Degol	1
Esboniad	<p>Mae cyrhaeddiad addysgol yn flaenoriaeth genedlaethol bwysig, ac yn cysylltu ag amryw o amcanion strategol eraill, fel lleihau diweithdra ac allgáu cymdeithasol.</p> <p>Mae'r dangosydd hwn yn seiliedig ar bwyntiau ac yn cydnabod perfformiad rhagor o ddisgyblion mewn amrywiaeth ehangach o gymwysterau.</p>		
Dadgyfuno	<p>Dylid dadgyfuno yn ôl cyd-destun a gwybodaeth leol. Dyma rai meysydd i'w hystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhyw • Iaith • Ethnigrwydd • Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) • Plant sy'n Derbyn Gofal (Yn cael eu haddysgu gan yr awdurdod lleol) • Ysgol • Disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim 		

[Yn ôl](#)

Maes gwasanaeth/polisi	Addysg
Parth	Canlyniadau Strategol
Cyfeirnod	EDU/C/F/016a/03-011 (EDU/016a)
Pennawd	Presenoldeb mewn ysgolion
Dangosydd	Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd
Canllaw	<p>Ystyrir presenoldeb fel bod yn bresennol neu ar weithgareddau addysgol wedi'u cymeradwyo.</p> <p>Lle caiff disgyblion eu cofrestru dau waith, unwaith mewn ysgol prif ffrwd ac unwaith mewn ysgol arbennig neu Uned Atgyfeirio Disgyblion (PRU), dylai'r ysgol gofnodi presenoldeb y disgybl yn y gosodiad arall yn y gofrestr. Os yw'r ysgol yn cadarnhau fod y disgybl yn bresennol yn y gosodiad arall, gall y sesiynau hyn cael eu cyfri yn 'bresennol' at ddibenion y dangosydd hwn.</p> <p>Eithriwch:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ddisgyblion llawn amser mewn Unedau Atgyfeirio Disgyblion (PRU) ac ysgolion arbennig; a • disgyblion mewn ysgolion annibynnol. <p>Caiff canran presenoldeb ei gyfrifo wrth dynnu'r canran sy'n absennol (absenoldebau wedi'u hawdurdodi ac yn anawdurdodedig) o 100%.</p> <p>Eithriwch unrhyw sesiynau lle'r oedd yr ysgol yn agored ar gyfer staff yn unig, neu wedi'i chau ar gyfer staff a disgyblion o ganlyniad amgylchiadau aflywodraethus, megis tywydd difrifol.</p> <p>Lle bod disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn ystod rhan y cyfnod casglu data, dylai'r data ar gyfer y cyfnod hynny dim ond ystyried cofnod presenoldeb y disgybl tra iddo fod yn yr ysgol sy'n cael ei hadrodd ar.</p> <p>Lle caiff disgybl ei aildderbyn mewn ysgol ar ôl bod yn ymadawr o'r ysgol hynny o fewn yr un flwyddyn sy'n cael ei hadrodd ar, rhaid i gyfanswm y nifer o sesiynau posib tra oedd y disgybl ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn cael ei grynhoi.</p> <p>Ystyrir fod disgybl ar y gofrestr fel ymadawr yn ôl ei statws cofrestru ar ddiwrnod olaf y cyfnod sy'n cael ei adrodd ar.</p> <p>Dylai'r canran o bresenoldeb disgyblion cael ei gofnodi ar gyfer yr holl blant sy'n oedran addysg orfodol, sef y rheiny sy'n 5 oed neu drosodd fel ar 31 Awst cyn y flwyddyn ysgol sy'n cael ei hadrodd. Cynhwyswch yr holl ddisgyblion hynny a oedd ar y gofrestr ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn. Ar gyfer y rhai hynny wedi eu cofrestri'n ddeuol, cynhwyswch y "prif" ysgol yn unig.</p> <p>Caiff canran absenoldeb ei gyfrifo yn seiliedig ar y sesiynau wedi'u colli gan yr holl ddisgyblion mewn ysgolion cynradd. Mae yna ddau sesiwn pob dydd - un yn y bore ac un yn y prynhawn. Cyfrifwyd cyfanswm y nifer o sesiynau sy'n bosib yn ystod y flwyddyn wrth symio'r holl nifer o sesiynau sy'n bosib</p>

	ar gyfer pob disgybl ar y gofrestr.		
Cyfrifiad	<p>Rhifiadur: Cyfanswm nifer y sesiynau wedi'u colli gan yr holl ddisgyblion mewn ysgolion cynradd</p> <p>Enwadur: Cyfanswm y nifer o sesiynau posib ar gyfer yr holl ddisgyblion</p> <p>Fformiwla: $\left[1 - \frac{\text{Rhifiadur}}{\text{Enwadur}} \right] \times 100$</p>		
Ffynhonnell Data	Ffurflen casglu data ar Lefel Disgyblion Unigol am bresenoldeb blynyddol gan Lywodraeth Cymru (Uned Ystadegau Addysg a Dysgu Gydol Oes (ELLS1))	Lle Degol	1
Esboniad	<p>Mae'r ffoecs ar bresenoldeb yn fesuriad hollbwysig gan na fydd pobl ifanc yn cyrraedd eu potensial llawn, ac yn fwy tebygol o gael eu denu at ymddygiad gwrthgymdeithasol os nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd.</p> <p>Fe wnaeth y Grŵp Tasg a Gorffen Presenoldeb argymell yn ei adroddiad yn Chwefror 2003 y dylai Llywodraeth Cymru bwysleisio'n fwy ar ddelio gydag absenoldeb disgyblion yn ystod oedran cynnar er mwyn osgoi problemau nes ymlaen. Fel rhan o'r dynesiad hwn, maent yn argymell y dylai gwybodaeth am bresenoldeb cael ei chasglu o ysgolion cynradd ac y dylai dulliau monitro ychwanegol eraill cael eu rhoi mewn lle.</p> <p>Mae cyfarwyddyd pellach am bresenoldeb disgyblion ar gael yn nogfen canllaw Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion' (Cylchlythyr 47/06).</p>		
Dadelfeniad	<p>Dylai dadelfeniad cael ei ystyried i ddiwallu anghenion y cyddestun a gwybodaeth leol. Dyma rai meysydd i'w hystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgol • Oed h.y. blwyddyn ysgol • Rhyw • Iaith • Ethnigrwydd • Anghenion Addysg Arbennig (AAA) • Rheswm am absenoldeb • Disgyblion sy'n gymwys am brydau bwyd ysgol am ddim 		

[Yn ôl](#)

Maes gwasanaeth/polisi	Addysg
Parth	Canlyniadau Strategol
Cyfeirnod	EDU/C/F/016b/03-012 (EDU/016b)
Pennawd	Presenoldeb mewn ysgolion
Dangosydd	Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd
Canllaw	<p>Ystyrir presenoldeb fel bod yn bresennol neu ar weithgareddau addysgol wedi'u cymeradwyo.</p> <p>Lle caiff disgyblion eu cofrestru dau waith, unwaith mewn ysgol prif ffrwd ac unwaith mewn ysgol arbennig neu Uned Atgyfeirio Disgyblion (PRU), dylai'r ysgol gofnodi presenoldeb y disgybl yn y gosodiad arall yn y gofrestr. Os yw'r ysgol yn cadarnhau fod y disgybl yn bresennol yn y gosodiad arall, gall y sesiynau hyn cael eu cyfri yn 'bresennol' at ddibenion y dangosydd hwn.</p> <p>Eithriwch:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ddisgyblion llawn amser mewn Unedau Atgyfeirio Disgyblion (PRU) ac ysgolion arbennig; a • disgyblion mewn ysgolion annibynnol. <p>Caiff canran presenoldeb ei gyfrifo wrth dynnu'r canran sy'n absennol (absenoldebau wedi'u hawdurdodi ac yn anawdurdodedig) o 100%.</p> <p>Eithriwch unrhyw sesiynau lle'r oedd yr ysgol yn agored ar gyfer staff yn unig, neu wedi'i chau ar gyfer staff a disgyblion o ganlyniad amgylchiadau aflywodraethus, megis tywydd difrifol.</p> <p>Lle bod disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn ystod rhan y cyfnod casglu data, dylai'r data ar gyfer y cyfnod hynny dim ond ystyried cofnod presenoldeb y disgybl tra iddo fod yn yr ysgol sy'n cael ei hadrodd ar.</p> <p>Lle caiff disgybl ei aildderbyn mewn ysgol ar ôl bod yn ymadawr o'r ysgol hynny o fewn yr un flwyddyn sy'n cael ei hadrodd ar, rhaid i gyfanswm y nifer o sesiynau posib tra oedd y disgybl ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn cael ei grynhoi.</p> <p>Ystyrir fod disgybl ar y gofrestr fel ymadawr yn ôl ei statws cofrestru ar ddiwrnod olaf y cyfnod sy'n cael ei adrodd ar.</p> <p>Cynhwyswch yr holl ddisgyblion ar restrau ysgolion uwchradd wedi'u cynnal yn unig.</p> <p>Caiff canran presenoldeb disgyblion ei fesur ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n 15 oed ac o dan ar 31 Awst cyn y flwyddyn ysgol sy'n cael ei hadrodd o ddechrau'r flwyddyn ysgol ac yn gorffen ar ddyddiad yr ail ŵyl y banc ym mis Mai. Cynhwyswch yr holl ddisgyblion hynny a oedd ar y gofrestr Cynhwyswch yr holl ddisgyblion hynny a oedd ar y gofrestr ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn. Ar gyfer y rhai hynny wedi eu cofrestru'n ddeuol, cynhwyswch y "prif" ysgol yn unig.</p> <p>Caiff canran absenoldeb ei gyfrifo yn seiliedig ar y sesiynau</p>

	<p>wedi'u colli gan yr holl ddisgyblion mewn ysgolion cynradd. Mae yna ddau sesiwn pob dydd - un yn y bore ac un yn y prynhawn. Cyfrifwyd cyfanswm y nifer o sesiynau sy'n bosib yn ystod y flwyddyn wrth symio'r holl nifer o sesiynau sy'n bosib ar gyfer pob disgybl ar y gofrestr.</p>		
Cyfrifiad	<p>Rhifiadur: Cyfanswm nifer y sesiynau wedi'u colli gan yr holl ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd</p> <p>Enwadur: Cyfanswm y nifer o sesiynau posib ar gyfer yr holl ddisgyblion</p> <p>Fformiwla: $\left[1 - \frac{\text{Rhifiadur}}{\text{Enwadur}} \right] \times 100$</p>		
Ffynhonnell Data	Ffurflen casglu data ar Lefel Disgyblion Unigol am bresenoldeb blynyddol gan Lywodraeth Cymru (Uned Ystadegau Addysg a Dysgu Gydol Oes (ELLS1))	Lle Degol	1
Esboniad	<p>Mae'r ffocws ar bresenoldeb yn fesuriad hollbwysig gan na fydd pobl ifanc yn cyrraedd eu potensial llawn, ac yn fwy tebygol o gael eu denu at ymddygiad gwrthgymdeithasol os nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd.</p> <p>Fe wnaeth y Grŵp Tasg a Gorffen Presenoldeb argymell yn ei adroddiad yn Chwefror 2003 y dylai Llywodraeth Cymru bwysleisio'n fwy ar ddelio gydag absenoldeb disgyblion yn ystod oedran cynnar er mwyn osgoi problemau nes ymlaen. Fel rhan o'r dynesiad hwn, maent yn argymell y dylai gwybodaeth am bresenoldeb cael ei chasglu o ysgolion cynradd ac y dylai dulliau monitro ychwanegol eraill cael eu rhoi mewn lle.</p> <p>Mae cyfarwyddyd pellach am bresenoldeb disgyblion ar gael yn nogfen canllaw Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion' (Cylchlythyr 47/06).</p>		
Dadelfeniad	<p>Dylai dadelfeniad cael ei ystyried i ddiwallu anghenion y cyddestun a gwybodaeth leol. Dyma rai meysydd i'w hystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgol • Oed h.y. blwyddyn ysgol • Rhyw • Iaith • Ethnigrwydd • Anghenion Addysg Arbennig (AAA) • Rheswm am absenoldeb • Disgyblion sy'n gymwys am brydau bwyd ysgol am ddim 		

[Yn ôl](#)

Maes gwasanaeth/polisi	Addysg
Parth	Canlyniadau Strategol
Cyfeirnod	EDU/S/F/017/01-019 (EDU/017)
Pennawd	Arholiadau Cyfnod Allweddol 4
Dangosydd	<i>Canran y disgyblion 15 oed ar y 31 Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2, gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg</i>
Canllaw	<p>Mae trothwyon yn cynrychioli 'maint' cymwysterau ar lefel benodol ar y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Mae'r trothwy Lefel 2 yn 'faint' o gymwysterau sy'n cyfateb i 5 TGAU gradd A*-C.</p> <p>Cynhwyswch gymwysterau a gyflawnwyd cyn cyrraedd 15 oed. Cynhwyswch ddisgyblion mewn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgolion Uwchradd; • Ysgolion Canol; • Ysgolion Arbennig: ac • Unedau Cyfeirio Disgyblion <p>Gall disgyblion y nodwyd eu bod o gefndir addysgol di-Gymraeg neu ddi- Saesneg gael eu heithrio. Dyma'r meini prawf a ddefnyddir i nodi disgyblion 'cymwys':</p> <ul style="list-style-type: none"> • nid Saesneg na Chymraeg yw iaith gyntaf y disgybl; • mae'r disgybl wedi dod o system addysg ddi-Gymraeg neu ddi-Saesneg; • ac mae wedi cyrraedd y DU ar neu ar ôl dechrau'r flwyddyn ysgol flaenorol. <p>Er enghraifft, efallai y bydd disgyblion sy'n cyrraedd diwedd cyfnod allweddol yn haf 2016 yn gymwys ar gyfer y statws hwn os gwnaethant gyrraedd y DU ar neu ar ôl 1 Medi 2014.</p> <p>Penaethiaid sy'n gyfrifol o hyd am gofrestru bod disgyblion wedi dod o system addysg ddi-Gymraeg neu ddi-Saesneg. Ni fydd y disgyblion hynny sy'n cael eu cofrestru yn cael eu cynnwys yng nghanlyniadau unrhyw bwnc h.y. unwaith y cofrestrir bod disgybl wedi dod o system addysg ddi-Gymraeg neu ddi-Saesneg, caiff ei ganlyniadau eu diystyru o safbwynt unrhyw berfformiad ar lefel awdurdod lleol tra pery'r statws hwnnw.</p> <p>Dylai'r disgyblion hyn gael eu heithrio o'r rhifiadur a'r enwadur.</p> <p>Mae'r data ar gyfer y dangosydd hwn yn cael ei lenwi ymlaen llaw â data a gasglwyd gan Dîm Dadansoddi - Addysg a Sgiliau (Ysgolion) Llywodraeth Cymru.</p>

Cyfrifo	<p>Rhifiadur: Nifer y disgyblion 15 oed ar 31 Awst ac ar y gofrestr mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol ar ddiwrnod y Cyfrifiad Ysgol blynyddol ym mis Ionawr a gyflawnodd y trothwy Lefel 2, gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg.</p> <p>Enwadur: Cyfanswm nifer y disgyblion 15 oed ar 31 Awst ac ar y gofrestr mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol ar ddiwrnod y Cyfrifiad Ysgol blynyddol ym mis Ionawr.</p> <p>Fformiwla: $\frac{\text{Rhifiadur}}{\text{Enwadur}} \times 100$</p>		
Dilysu	<p>Bydd angen esbonio gwerthoedd dangosyddion sy'n ymddangos yn arbennig o uchel neu'n arbennig o isel o gymharu â set data Cymru gyfan ar gyfer y flwyddyn flaenorol.</p> <p>Bydd angen esbonio rhifiaduron ac enwaduron sydd wedi newid yn sylweddol ers y flwyddyn flaenorol. Caiff arwyddocâd ei bennu yn y cyd-destun hwn drwy ystyried newidiadau yng ngwerthoedd Cymru mewn blynyddoedd blaenorol.</p>		
Ffynhonnell y Data	Tîm Dadansoddi - Addysg a Sgiliau (Ysgolion) Llywodraeth Cymru	Lle Degol	1
Esboniad	<p>Mae cyrhaeddiad addysgol yn flaenoriaeth genedlaethol bwysig, ac yn cysylltu ag amryw o amcanion strategol eraill, megis lleihau diweithdra ac allgáu cymdeithasol.</p>		
Dadgyfuno	<p>Dylid dadgyfuno yn ôl cyd-destun a gwybodaeth leol. Dyma rai meysydd i'w hystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhyw • Iaith • Ethnigrwydd • Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) • Plant sy'n Derbyn Gofal (Yn cael eu haddysgu gan yr awdurdod lleol) • Ysgol • Disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim 		

[Yn ôl](#)

Maes gwasanaeth/polisi	Iechyd Corfforaethol – Adnoddau Dynol
Parth	Adnoddau
Cyfeirnod	CHR/C/F/002/06-013 (CHR/002)
Pennawd	Absenoldeb oherwydd salwch
Dangosydd	Nifer y diwrnodau/sifftiau gwaith wedi colli oherwydd salwch, fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn
Canllaw	<p>Dyma gyfanswm y nifer o ddiwrnodau/sifftiau gwaith sy'n golledig oherwydd salwch tymor hir a salwch tymor byr.</p> <p>Mae salwch tymor byr yn cael ei ddiffinio fel absenoldeb mewn un sbel sy'n para llai nag 28 diwrnod calendr yn olynol.</p> <p>Mae salwch tymor hir yn cael ei ddiffinio fel absenoldeb mewn un sbel sy'n para 28 diwrnod calendr yn olynol neu fwy. Cynhwyswch y rheiny sydd ar salwch hirdymor, sydd ddim yn cael eu talu rhagor, ond sydd dal yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol.</p> <p>Wrth gyfri'r nifer o ddiwrnodau/sifftiau gwaith colledig oherwydd salwch, cynhwyswch:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diwrnodau colledig oherwydd salwch wedi'i achosi gan anabledd, salwch hir dymor, damweiniau trydydd parti ac anafiadau diwydiannol. <p>Eithriwch:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Apwyntiadau meddygol (e.e. ar gyfer y meddyg, deintydd, optegydd, ysbyty, bydwragedd a.y.b.) gan ystyrir y rhain yn absenoldebau â chaniatâd arbennig. <p>Mae gweithiwr awdurdod lleol yn person sy'n gyflogedig ac yn cael ei dalu gan yr awdurdod lleol (naill ai'n llawn neu'n rhannol), sydd naill ai ar gytundeb parhaol, neu ar unrhyw gytundeb cyfnod penodol. Mae hyn hefyd yn cynnwys contractau dros dro/pen-agored i gyflenwi, er enghraifft, dros absenoldeb salwch neu absenoldeb mamolaeth.</p> <p>Ac eithriwch:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Person sy'n gyflogedig ac yn cael ei dalu gan yr awdurdod lleol (naill ai'n llawn neu'n rhannol) sydd ddim ar gytundeb parhaol, ond ar gytundeb cyfnod penodol tymhorol. • Person sydd ddim yn gysylltiedig gyda'r awdurdod lleol, dim ar unrhyw fath o gytundeb gwasanaeth, lle does dim rhwymedigaeth gan yr awdurdod i gynnig yr oriau, a dim rhwymedigaeth i'r person i dderbyn yr oriau hyn. Gall gweithwyr wrth gefn ac athrawon cyflenwi dod o dan y categori hwn. • Person sydd ddim yn gyflogedig gan yr awdurdod lleol a dim ar unrhyw fath o gytundeb, ond sy'n gweithio'n yn ôl gofyn yr awdurdod lleol, ac yn gyflogedig ac yn cael ei dalu gan asiantaeth cyflogi, sydd ddim ar gyflogres yr awdurdodau lleol. • Person a gyflogir gan yr awdurdod lleol ar gontract dim oriau. <p>Mae'r data yn cael ei gasglu ar wahân ar gyfer 'Athrawon' a 'Staff (ac eithrio athrawon)'. Dylai staff ysgol gael eu cynnwys fel 'Staff</p>

	<p>(ac eithrio athrawon)'. Dylid cynnwys swyddi arweinyddiaeth e.e. penaethiaid, dirprwy benaethiaid ac athrawon pennaeth cynorthwyol ac ati fel 'Athrawon'.</p> <p>Mae 'sifftiau/diwrnodau gwaith' yn golygu diwrnodau/sifftiau sy'n cael eu hamserlennu ar gyfer gwaith. Os yw gweithwyr cyflogedig i fod i weithio ar wyliau banc/gwyliau statudol eraill ac maent i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch, dylai eu habsenoldeb oherwydd salwch cael ei chynnwys.</p> <p>Os ydy gweithiwr cyflogedig yn adrodd ei fod yn sâl yn ystod diwrnod/sifft gwaith, dylai'r awdurdod cofnodi'r wybodaeth i'r hanner diwrnod/sifft gwaith agosaf.</p> <p>Ar gyfer gweithwyr cyflogedig sy'n gweithio rhan amser, dylai'r awdurdod cyfrifo cyfwerth yr amser llawn (FTE) ar gyfer yr enwadur a'r rhifiadur yn gyson.</p> <p>Mae'r canlynol yn esiampl o sut i gyfrifo FTE ar gyfer gweithwyr cyflogedig. Os ydy gweithiwr cyflogedig llawn amser yn gweithio 5 diwrnod yr wythnos, mae'r cywerthoedd canlynol yn gymwys: 1 gweithiwr cyflogedig llawn amser = 1 Gweithiwr cyflogedig sy'n gweithio 2 ½ diwrnod = 0.5 Gweithiwr cyflogedig sy'n gweithio 3 diwrnod = 0.6</p> <p>Os yw gweithiwr cyflogedig llawn amser yn gweithio 40 awr yr wythnos, mae'r cywerthoedd canlynol yn gymwys: 1 gweithiwr cyflogedig amser llawn = 1 Gweithiwr cyflogedig sy'n gweithio 16 awr = 0.4 Gweithiwr cyflogedig sy'n gweithio 30 awr = 0.75</p> <p>Dylai diwrnod cael ei seilio ar y nifer o oriau wedi'u contractio ar gyfer gweithiwr cyflogedig.</p>
Cyfrifiad	<p>Rhifiadur: Cyfanswm y nifer o ddiwrnodau/sifftiau gwaith wedi'u colli oherwydd salwch, rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.</p> <p>Caiff y rhifiadur ei gyfrifo fel $W+X+Y+Z$, lle: W = Nifer y diwrnodau gwaith/sifftiau cyfwerth ag amser llawn (FTE) athro a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch tymor byr; X = Nifer y diwrnodau gwaith/sifftiau cyfwerth ag amser llawn (FTE) athro a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch tymor hir; Y = Nifer y diwrnodau gwaith/sifftiau cyfwerth ag amser llawn (FTE) gweithiwr awdurdod lleol (ac eithrio athrawon) a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch tymor byr; Z = Nifer y diwrnodau gwaith/sifftiau cyfwerth ag amser llawn (FTE) gweithiwr awdurdod lleol (ac eithrio athrawon) a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch tymor hir.</p> <p>Enwadur: Nifer y gweithwyr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn (FTE) ar gyfartaledd.</p> <p>Caiff y enwadur ei gyfrifo fel $A+B$, lle: A = Nifer cyfartalog yr athrawon cyfwerth ag amser llawn (FTE). B = Nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn (FTE) (ac eithrio athrawon).</p>

	<p>Caiff A a B ei gyfrifo wrth adio'r nifer o weithwyr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn (FTE) ar 31 Mawrth 2016 gyda'r nifer o weithwyr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn (FTE) ar 31 Mawrth 2017, ac yna rhannu'r canlyniad â 2.</p> <p>Fformiwla: $\frac{\text{Rhifiadur}}{\text{Enwadur}}$</p>		
Ffynhonnell Data	-	Lle Degol	1
Esboniad	<p>Fe fydd mesur y lefel o absenoldeb oherwydd salwch o fewn eich awdurdod lleol yn helpu chi i sicrhau cryfder ac effeithiolrwydd rheolaeth polisiâu absenoldeb o fewn awdurdodau. Fe fydd hefyd yn helpu dangos pa mor effeithiol y mae'r awdurdod wedi bod wrth geisio lleihau diwrnodau colledig ac yn rhoi sylfaen er mwyn gwerthuso statws a morâl y gweithlu.</p>		
Dadelfeniad	<p>Dylai dadelfeniad cael ei ystyried i ddiwallu anghenion y cyd-destun a gwybodaeth leol.</p>		

[Yn ôl](#)

Maes gwasanaeth/polisi	Tai – Adnewyddu'r Sector Preifat
Parth	Canlyniadau Strategol
Cyfeirnod	PSR/S/F/004/03-012 (PSR/004)
Pennawd	Anheddau gwag a gafodd eu llenwi
Dangosydd	<i>Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol</i>
Canllaw	<p>Cewch ddiffiniad llawn am annedd yn Eirfa Adnewyddu'r Sector Preifat.</p> <p>Annedd gwag yw annedd lle nad oes bobl. Mae hyn yn eithrio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ail gartref neu gartref gwyliau; • Annedd newydd ei chwblhau, ac yn aros i'w haneddu; • Annedd sy'n bodoli'n barod ac yn cael ei throi neu'i moderneiddio; neu • Annedd sy'n cael ei defnyddio ond am bwrpasau dibreswyl. <p>Mae'r canlynol yn esiamplau o'r mathau o gamau uniongyrchol sy'n gallu arwain at yr annedd yn cael ei haneddu unwaith eto:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Grantiau, benthyciadau neu gymorth ariannol arall naill ai wedi'u rhoi neu'u hyrwyddo gan yr awdurdod. • Yn darparu cyngor, megis: <ul style="list-style-type: none"> ○ Llenyddiaeth ar strategaeth tai gwag yr awdurdod; ○ Cyngor ar osod, gan gynnwys gofynion cyfreithiol a budd-dal tai; ○ Cyngor ar grantiau a chymorth ariannol arall gan gynnwys consesiynau treth sydd ar gael; ○ Manylion am fforymau landlord neu gynlluniau achrediad; ○ Cyngor ar atgyweiriadau, gan gynnwys manylion ar gontractwyr adeiladu yn diwallu anghenion sylfaenol. • Atgyfeiriad at Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs) partner neu ganolwr arall gyda phrofiad perthnasol. • Camau gorfodi, gan gynnwys rhybuddion atgyweirio, gorchymyn prynu gorfodol (CPO), gwaith sy'n destun i ddiffygdalu, gorfodi gwerthu. • Ymholiadau a gwenir er mwyn sefydlu perchenogaeth yr eiddo ac unrhyw gamau dilynol. <p>Dylai eiddo dim ond cael ei gyfri unwaith, yn ddifater os yw e wedi bod yn destun i fwy nag un cam/ymyriad a wnaeth arwain iddo gael ei aneddu unwaith eto.</p> <p>Lle caiff eiddo eu hisrannu i unedau ychwanegol wrth gael eu gwneud yn addas, dylai'r nifer o unedau sy'n cael eu creu cael eu cynnwys. Er enghraifft, caiff tŷ wedi'i droi yn dri fflat ac yna yn cael ei aneddu unwaith eto yn cael ei gyfri fel tair annedd yn cael eu haneddu unwaith eto.</p> <p>Gallwch gael hyd i'r data ar gyfer y dangosydd hwn o Adran Refeniw'r Awdurdod Lleol, a ddylai cael gwybodaeth ynghylch os oes treth gyngor yn cael ei thalu ar anheddau sector preifat. Dylid cynnwys pob eiddo y mae'n rhaid talu treth gyngor arno, p'un a yw'n destun gostyngiad ai peidio a ph'un a yw wedi bod yn wag ers mwy na 6 mis ai peidio.</p>

	<p>Mae'r nifer o anheddau sydd wedi bod yn wag am o leiaf 6 mis at 1 Ebrill, ni ddylai'r ffigur cael ei newid i gynnwys unrhyw eiddo sydd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis yn ystod y flwyddyn.</p> <p>Bu'n rhaid i'r awdurdod lleol fod wedi cymryd y cam gweithredu yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol neu flaenorol er mwyn iddo gael ei gyfrifo yn yrhifiadur.</p>		
Cyfrifiad	<p>Rhifiadur: Y nifer o anheddau sector preifat sydd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis at 1 Ebrill, a wnaeth cael eu haneddu unwaith eto drwy gamau uniongyrchol gan yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn.</p> <p>Enwadur: Cyfanswm y nifer o anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis at 1 Ebrill.</p> <p>Fformiwla: $\frac{\text{Rifiadur}}{\text{Enwadur}} \times 100$</p>		
Dilysiad	<p>Bydd angen esbonio gwerthoedd dangosyddion sy'n ymddangos yn arbennig o uchel neu isel o gymharu â set data Cymru gyfan ar gyfer y flwyddyn flaenorol.</p> <p>Bydd angen esbonio rhifiaduron ac enwaduron sydd wedi newid yn sylweddol ers y flwyddyn flaenorol. Caiff arwyddocâd ei bennu yn y cyd-destun hwn drwy ystyried newidiadau yng ngwerthoedd Cymru mewn blynyddoedd blaenorol.</p>		
Ffynhonnell Data	-	Lle Degol	2
Esboniad	<p>Mae'r dangosydd hwn yn mesur yr ystent y mae'r awdurdodau lleol yn sicrhau bod anheddau sydd wedi bod yn wag am sbel hir yn cael eu haneddu unwaith eto.</p>		
Dadelfeniad	<p>Dylai dadelfeniad cael ei ystyried i ddiwallu anghenion y cyd-destun a wybodaeth leol.</p>		

[Yn ôl](#)

Maes gwasanaeth/polisi	Gwasanaethau Cynllunio a Rheoli - Cynllunio
Parth	Canlyniadau Strategol
Cyfeirnod	PLA/S/F/006b/05-013 (PLA/006(b))
Pennawd	Darpariaeth tai fforddiadwy
Dangosydd	<i>Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.</i>
	<p>Caiff unedau tai fforddiadwy eu diffinio yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 2 wedi'i gyhoeddi ym Mehefin 2006.</p> <p>Y diffiniad o 'dai fforddiadwy' at ddibenion y system cynllunio defnydd tir sy'n cael ei disgrifio yn y Nodyn Cyngor Technegol yw tai lle mae yna drefniadau diogel er mwyn sicrhau eu bod o fewn cyrraedd i'r rheini sydd heb fod yn gallu fforddio tai ar y farchnad agored, gan gynnwys pobl sy'n eu meddiannu gyntaf a'r bobl sy'n dod ar eu hôl. Fodd bynnag, sylweddolir y gall rhai cynlluniau arwain at berchnogaeth lawn. Os felly, rhaid cael trefniadau diogel yn eu lle i sicrhau bod derbyniadau cyfalaf yn cael eu hailgylchu i ddarparu tai fforddiadwy yn eu lle.</p> <p>Mae tai fforddiadwy yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tai rhent cymdeithasol; • Tai canolradd; • Tai fforddiadwy wedi'u darparu ar safleoedd wedi'u neilltuo neu ar hap, lle mae tai fforddiadwy wedi eu sicrhau dan gytundeb, amodau cynllunio Adran 106 neu ddull addas arall; • Tai fforddiadwy wedi'u darparu ar safleoedd wedi'u neilltuo am 100% o dai fforddiadwy; • Tai fforddiadwy wedi'u darparu ar safleoedd eithriedig gwledig; • Tai fforddiadwy wedi'u darparu gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig lle mae'r safle wedi'i brynu ar y farchnad agored heb ddefnyddio cytundeb Adran 106; • Holl adeiladau o'r newydd ac addasiadau; a'r • Holl unedau eraill o dai fforddiadwy wedi'u darparu trwy system gynllunio. <p>At ddiben y dangosydd hwn, rydym am ystyried pob eiddo a oedd ar gael gyntaf fel tai fforddiadwy yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys adeiladau newydd, addasiadau a chaffaeliadau.</p> <p>Mae'r diffiniad llawn uchod o dai fforddiadwy yn gyson â'r hyn a nodir ar y ffurflen casglu data Tai Fforddiadwy flynyddol.</p> <p>Felly, mae rhifiadur y dangosydd hwn wedi'i gyn-boblogi gan ddefnyddio data o'r ffurflen casglu data Tai Fforddiadwy ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016, gan gynrychioli cyfanswm unedau'r tai fforddiadwy a ddarperir yn ardal yr awdurdod lleol;</p>

Canllaw	<p>Mae enwadur y dangosydd hwn wedi'i gyn-boblogi gan ddefnyddio data o'r ffurflen casglu data Adeiladau Newydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016, gan gynrychioli cyfanswm nifer yr eiddo sydd newydd eu cwblhau yn ardal yr awdurdod lleol, gan gynnwys y rhai a arolygwyd gan adran rheoli adeiladu'r awdurdod lleol a'r Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai (NHBC).</p>		
Cyfrifiad	<p>Rhifiadur: Nifer yr unedau o dai fforddiadwy ychwanegol wedi'u darparu yn ystod y flwyddyn</p> <p>Enwadur: Cyfanswm y nifer o unedau o dai ychwanegol wedi'u darparu yn ystod y flwyddyn</p> <p>Dylai'r enwadur cael ei gyfrifo fel (X + Y), lle;</p> <p>X = Nifer yr unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn (casgliad data Adeiladu o'r newydd Awdurdod Lleol)</p> <p>Y = Nifer yr unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn (casgliad data Gyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai (NHBC))</p> <p>Fformiwla: $\frac{\text{Rhifiadur} \times 100}{\text{Enwadur}}$</p>		
Dilysiad	<p>Caiff y rhifiadur a'r enwadur eu dilysu'n gyffredinol fel rhan o'r data a gasglwyd am dai fforddiadwy ac adeiladau newydd yn y flwyddyn flaenorol, a fydd wedi hynny yn ymwneud â dilysu'r dangosydd hwn. Bydd angen rhoi esboniad pellach am eitemau data a gadarnheir sy'n sylweddol gwahanol i flynyddoedd blaenorol neu'r cyfartaledd yng Nghymru.</p>		
Ffynhonnell data	<p>Rhifiadur: Ffurflen casglu data am Dai Fforddiadwy</p> <p>Enwadur: Ffurflen casglu data ar gyfer tai newydd</p>	Lle Degol	0
Esboniad	<p>Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn galluogi awdurdodau cynllunio lleol, lle bod yr angen am dai fforddiadwy ei fynegi, i sicrhau elfen o dai fforddiadwy fel rhan o ddatblygiadau tai newydd y sector preifat.</p> <p>Mae awdurdodau cynllunio lleol hefyd yn gyfrifol am ystyried ceisiadau caniatâd am gynllunio ar gyfer tai newydd ac am addasiadau i adeiladau sy'n bodoli'n barod am bwrpasau tai, un ai os ydynt yn geisiadau am dai fforddiadwy, tai preifat neu'n gymysgedd o dai.</p> <p>Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio monitro ac adrodd ar allbynnau'r polisïau tai fforddiadwy'r Cynllun Datblygu Lleol (LDP), fel rhan o'r Adroddiad monitro Blynyddol LDP. Mae hefyd yn ofynnol iddynt osod gwybodaeth am oblygiadau cynllunio (cytundebau Adran 106), sy'n sicrhau cyfraniadau tai fforddiadwy ar eu cofrestrau cynllunio statudol.</p>		

	<p>Mae polisi cynllunio Llywodraeth Cymru parthed tai fforddiadwy wedi'i nodi ym Mholisi Cynllunio Cymru 2002, fel sydd wedi'i ddiwygio ac yn Nodyn Cyngor Technegol 2 Cynllunio a Thai Fforddiadwy.</p> <p>Cydnabyddir bod y dangosydd hwn yn defnyddio rhifiadur sy'n cynnwys caffaeliadau, NA chaiff ei gynrychioli yn yr enwadur. Felly, deallir NAD yw'r dangosydd hwn yn nodi cyfran y tai newydd eu hadeiladu sy'n fforddiadwy. Yn hytrach, mae'n rhoi dynodiad o nifer y tai fforddiadwy a ddarperir mewn ardal, gan ddefnyddio nifer yr adeiladau newydd yn yr ardal i raddio'r data at ddiben cymharu awdurdodau.</p> <p>Mae'n dechnegol bosibl ac yn dderbyniol felly y gall gwerth dangosydd fod yn fwy na 100%, yn enwedig mewn achosion lle mae nifer yr adeiladau newydd yn isel am gyfnod penodol o amser, ac y caiff tai fforddiadwy eu cyflwyno'n bennaf drwy gaffael eiddo sydd eisoes yn bodoli.</p>
Dadelfeniad	Dylai dadelfeniad cael ei ystyried i ddiwallu anghenion y cyd-destun a gwybodaeth leol

[Yn ôl](#)

Maes gwasanaeth/polisi	Addysg
Parth	Canlyniadau Strategol
Cyfeirnod	EDU/S/F/002/08-014 (EDU/002ii)
Pennawd	Disgyblion sy'n gadael addysg orfodol heb gymhwyster allanol wedi'i gymeradwyo, ac nad ydynt yn parhau mewn addysg llawn amser, hyfforddiant na dysgu seiliedig ar waith
Dangosydd	<i>Canran disgyblion sydd yng ngofal awdurdodau lleol, sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol, ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol cymeradwy</i>
Canllaw	<p>Cymwysterau allanol cymeradwy yw unrhyw gymhwyster wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru dan adran 99 o'r Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000, at ddibenion adran 96 o'r Ddeddf. Mae rhestr gyflawn o'r cymwysterau allanol cymeradwy ar gael ar wefan Cymwysterau yng Nghymru (QiW).</p> <p>Caiff dysgu seiliedig ar waith ei ddiffinio fel 'proses o weithgareddau wedi'u cynllunio sy'n cael eu gweithredu yn y gweithle, ac sydd wedi'u cynllunio'n arbennig ar gyfer datblygu gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau sy'n berthnasol i alwedigaethau penodol yn y farchnad lafur, neu'n berthnasol yn gyffredinol i gyfraniad effeithiol yn y farchnad honno.' Mae hyn yn cynnwys dysgu seiliedig ar waith llawn amser a rhan amser.</p> <p>Cynhwyswch ddisgyblion mewn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgolion uwchradd; • Ysgolion canol; • Ysgolion arbennig: ac • Unedau Cyfeirio Disgyblion <p>Gall disgyblion y nodwyd eu bod o gefndir addysgol di-Gymraeg neu ddi- Saesneg gael eu heithrio. Dyma'r meini prawf a ddefnyddir i nodi disgyblion 'cymwys':</p> <ul style="list-style-type: none"> • nid Saesneg na Chymraeg yw iaith gyntaf y disgybl; • mae'r disgybl wedi dod o system addysg ddi-Gymraeg neu ddi- Saesneg; ac • wedi cyrraedd y DU ar neu ar ôl ddechrau'r flwyddyn ysgol flaenorol. <p>Er enghraifft, efallai y bydd disgyblion sy'n cyrraedd diwedd cyfnod allweddol yn haf 2016 yn gymwys ar gyfer y statws hwn os gwnaethant gyrraedd y DU ar neu ar ôl 1 Medi 2014.</p> <p>Penaethiaid sy'n gyfrifol o hyd am gofrestru bod disgyblion wedi dod o system addysg ddi-Gymraeg neu ddi-Saesneg. Ni fydd y disgyblion hynny sy'n cael eu cofrestru yn cael eu cynnwys yng nghanlyniadau unrhyw bwnc h.y. unwaith y cofrestrir bod disgybl wedi dod o system addysg ddi- Gymraeg neu ddi-Saesneg, caiff ei ganlyniadau eu diystyru o safbwynt unrhyw berfformiad ar lefel awdurdod lleol tra pery'r statws hwnnw.</p>

	<p>Dylai'r disgyblion hyn gael eu heithrio o'r rhifiadur a'r enwadur.</p> <p>Plant sydd wedi derbyn gofal unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn academaidd yw disgyblion dan ofal yr awdurdod lleol. Eithriwch ddisgyblion sydd wedi derbyn gofal dan gyfres o leoliadau byrdymor (gofal seibiant), oni bai eu bod wedi derbyn gofal am 120 diwrnod yn olynol mewn un lleoliad.</p> <p>Os caiff plentyn ei addysgu yn ardal un awdurdod lleol, ond ei fod yn derbyn gofal gan awdurdod lleol gwahanol, dylai'r awdurdod lleol sy'n darparu'r addysg gynnwys y plentyn h.y. dylech gynnwys plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod gwahanol ond sy'n cael eu haddysgu yn ardal eich awdurdod lleol chi.</p> <p>Mae'r enwadur ar gyfer rhan i) y dangosydd hwn yn cael ei lenwi ymlaen llaw â data a gasglwyd gan Dîm Dadansoddi - Addysg a Sgiliau (Ysgolion) Llywodraeth Cymru.</p> <p>Er mwyn helpu i gyfrifo'r rhifiadur ar gyfer rhan i), bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi rhestr o'r disgyblion oedd heb ennill unrhyw gymwysterau i adrannau addysg awdurdodau lleol ym mis Ionawr 2016.</p>		
Cyfrifo	<p>Rhifiadur: Nifer y disgyblion sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol sy'n 15 oed ar 31 Awst, ac sydd ar gofrestr unrhyw ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n gadael addysg orfodol heb gymhwyster allanol cymeradwy, ac nad ydynt yn parhau mewn addysg, hyfforddiant na dysgu seiliedig ar waith.</p> <p>Enwadur: Cyfanswm y disgyblion sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, sy'n 15 oed ar 31 Awst ac ar gofrestr unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol.</p> <p>Fformiwla: $\frac{\text{Rhifiadur}}{\text{Enwadur}} \times 100$</p>		
Dilysu	<p>Bydd angen esbonio gwerthoedd dangosyddion sy'n ymddangos yn arbennig o uchel neu'n arbennig o isel o gymharu â set data Cymru gyfan ar gyfer y flwyddyn flaenorol.</p> <p>Bydd angen esbonio rhifiaduron ac enwaduron sydd wedi newid yn sylweddol ers y flwyddyn flaenorol. Caiff arwyddocâd ei bennu yn y cyd-destun hwn drwy ystyried newidiadau yng ngwerthoedd Cymru mewn blynyddoedd blaenorol.</p>		
Ffynhonnell y Data	Enwadur: Tîm Dadansoddi - Addysg a Sgiliau (Ysgolion) Llywodraeth Cymru	Lle Degol	1

Esboniad	<p>Bydd y dull newydd o ymdrin ag addysg ar gyfer disgyblion 14 - 19 oed yn caniatáu mwy o amrywiaeth o ran yr hyn sy'n yn cael ei dysgu, ac fe ddylai lleihau nifer y disgyblion, yn enwedig y rheini sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, sy'n gadael addysg heb gymhwyster cymeradwy.</p> <p>Mae'r dangosydd hwn yn mesur effeithiolrwydd yr agenda newydd hon o safbwynt yr awdurdod addysg. Ymdrinnir â dylanwad y rhiant corfforaethol ar addysg yn y dangosyddion Gofal Cymdeithasol – Gwasanaethau i Blant.</p>
Dadgyfuno	<p>Dylid dadgyfuno yn ôl cyd-destun a gwybodaeth leol. Dyma rai meysydd i'w hystyried:</p> <ul style="list-style-type: none">• Rhyw• Iaith• Ethnigrwydd• Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)• Ysgol• Disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim

[Yn ôl](#)

Maes gwasanaeth/polisi	Addysg
Parth	Canlyniadau Strategol
Cyfeirnod	EDU/C/F/006/05-016 (EDU/006ii)
Pennawd	Aseidiadau athro yn y Gymraeg (iaith gyntaf)
Dangosydd	<i>Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Aseiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3</i>
Canllaw	<p>Mae ysgol yn gyfrifol am adrodd canlyniadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 ar gyfer yr holl ddisgyblion ar ei rhestr ysgol fel ar yr ail ddydd Mawrth ym Mai a'u haddysgu ym mlwyddyn cwricwlwm cenedlaethol 9 yng Nghyfnod Allweddol 3; caiff hyn ei alw yn 'ddyddiad penodol ar restr'.</p> <p>Mae'r dangosydd hwn yn mesur y gyfran o ddisgyblion wedi'u hasesu ym mhwc Cymraeg (iaith gyntaf).</p> <p>Cynhwyswch yr holl aseidiadau yn y Gymraeg (iaith gyntaf), hyd yn oed os ydynt yn cael eu cynnal mewn ysgolion gyfrwng Cymraeg dynodedig.</p> <p>Eithriwch ddisgyblion wedi'u canfod yn y Casgliad Data Cenedlaethol (NDC) o gefndir addysgiadol di-Gymreig/Seisnig. Dyma'r meini prawf sy'n canfod os yw disgybl yn 'gymwys':</p> <ul style="list-style-type: none"> • nid yw iaith gyntaf y disgybl yn Saesneg na Chymraeg; • mae'r disgybl yn dod o gefndir addysgiadol di-Gymreig/Seisnig; ac • wedi cyrraedd y DU ar neu ar ôl ddechrau'r flwyddyn ysgol flaenorol. <p>Er enghraifft, efallai y bydd disgyblion sy'n cyrraedd diwedd cyfnod allweddol yn haf 2016 fod yn gymwys ar gyfer y statws hwn os gwnaethant gyrraedd yn y DU ar neu ar ôl 1 Medi 2014.</p> <p>Mae penaethiaid o hyd yn gyfrifol am gofrestru bod disgyblion wedi dod o system addysgiadol di-Gymreig/Seisnig. Ni fydd y disgyblion hynny sy'n cael eu cofrestru fel y cyfryw yn cael eu cynnwys yng nghanlyniadau unrhyw bwnc h.y. unwaith i ddisgybl gael ei gofrestru ei fod wedi dod o system addysgiadol di-Gymreig/Seisnig, caiff ei ganlyniadau eu hanwybyddu o lefel berfformiad unrhyw awdurdod lleol tra i'r statws hynny fod y nghymwys.</p> <p>Dylai'r disgyblion hyn cael eu heithrio o'r rhifiadur a'r enwadur.</p> <p>Mae'r data ar gyfer y dangosydd hwn yn cael ei gyn-boblogi o ddata a gasglwyd gan Tîm Dadansoddi Addysg a Sgiliau (Ysgolion) Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn flaenorol.</p>

Cyfrifiad	<p>Rhifiadur: Nifer y disgyblion, ym mhob ysgol wedi'i chynnal gan yr awdurdod lleol, yn derbyn Asesiad Athro yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.</p> <p>Enwadur: Nifer y disgyblion wedi'u hasesu, ym mhob ysgol wedi'i chynnal gan yr awdurdod lleol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.</p> <p>Fformiwla: $\frac{\text{Rhifiadur}}{\text{Enwadur}} \times 100$</p>		
Dilysiad	<p>Bydd angen esbonio gwerthoedd dangosyddion sy'n ymddangos yn arbennig o uchel neu isel o gymharu â set data Cymru gyfan ar gyfer y flwyddyn flaenorol.</p> <p>Bydd angen esbonio rhifiaduron ac enwaduron sydd wedi newid yn sylweddol ers y flwyddyn flaenorol. Caiff arwyddocâd ei bennu yn y cyd-destun hwn drwy ystyried newidiadau yng ngwerthoedd Cymru mewn blynyddoedd blaenorol.</p>		
Ffynhonnell Data	Tîm Dadansoddi Addysg a Sgiliau (Ysgolion) Llywodraeth Cymru	Lle Degol	1
Esboniad	<p>Mae cefnogi'r iaith Gymraeg yn flaenoriaeth wladol bwysig. Fe fydd y dangosydd hwn yn monitro'r nifer sy'n hawlio addysg trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.</p>		
Dadelfeniad	<p>Dylai dadelfeniad cael ei ystyried i ddiwallu anghenion y cyd-destun a gwybodaeth leol. Dyma rai meysydd i'w hystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgol • Disgyblion sy'n gymwys am brydau bwyd ysgol am ddim 		

[Yn ôl](#)

Mae gwasanaeth/polisi	Addysg
Parth	Cyrchu gwasanaethau
Cyfeirnod	EDU/S/F/015/03-018 (EDU/015)
Pennawd	Amseroldeb Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig (SEN)
Dangosydd	<i>Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau;</i> <i>a) gan gynnwys eithriadau; a</i> <i>b) heb gynnwys eithriadau.</i>
Canllaw	<p>Ystyrir bod gan blentyn anghenion addysgol arbennig os oes ganddo anhawster dysgu sy'n galw am ddarpariaeth addysgol arbennig ar ei gyfer.</p> <p>Mae gan blant anhawster dysgu os oes ganddynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> • anhawster sylweddol wrth ddysgu na mwyafrif y plant o'r un oedran; • anabledd sydd yn eu rhwystro neu'u hatal rhag defnyddio cyfleusterau addysgol sydd fel arfer yn cael eu darparu i blant yr un oedran mewn ysgolion yn yr un ardal â'r awdurdod addysg lleol; • dan oedran addysg orfodol ac yn cwmpo o fewn un o'r diffiniadau uchod, neu a fyddai'n cwmpo mewn i un ohonynt os nad oedd darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer. <p>Mae darpariaethau addysgol arbennig yn golygu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • I blant 2+ oed, unrhyw ddarpariaethau addysgol arbennig sydd yn ychwanegol i, neu'n wahanol i'r darpariaethau arferol ar gyfer plant yr un oed ac mewn ysgolion wedi'u cynnal gan yr awdurdod lleol, ar wahân i ysgolion arbennig, yn eu hardal. • I blant dan 2 oed, darpariaeth addysgol o unrhyw fath. <p>Mae datganiad anghenion addysgol arbennig yn ddatganiad sy'n amlinellu anghenion addysgol arbennig y plentyn a'r ddarpariaeth addysgol arbennig a ddylai diwallu'r anghenion hyn.</p> <p>Ystyrir fod datganiad wedi'u dod i ben unwaith i'r awdurdod lleol a rhiant/gwarcheidwad y plentyn wedi cytuno'r cynnwys ac unrhyw newidiadau iddo.</p> <p>Dylai'r amser y mae'n cymryd i ddod â'r datganiad i ben cael ei gyfri o'r dyddiad y mae'r plentyn yn dod i sylw'r awdurdod mewn un o'r ffyrdd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwneir cais am asesiad gan ysgol neu osodiad y plentyn; • gwneir cais am asesiad gan riant y plentyn; • gwneir atgyfeiriad gan asiantaeth arall. <p>i'r dyddiad y mae'r awdurdod lleol yn rhoi copi'r o'r datganiad terfynol a hysbysiad ar bapur i riant/gwarcheidwad y plentyn. Dylai disgyblion cael eu cynnwys yn y flwyddyn galendr y cafodd y datganiad ei gwblhau.</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • am fod amgylchiadau personol eithriadol yn effeithio ar y plentyn neu ar riant y plentyn yn ystod y cyfnod o 26 wythnos; • am fod y plentyn neu riant/gwarcheidwad y plentyn yn absennol o'r ardal yr awdurdod am gyfnod di-dor o ddim llai na phedair wythnos yn ystod o gyfnod o 26 wythnos; • am fod yr awdurdod wedi gofyn am gyngor wrth bennaeth ysgol yn ystod y cyfnod yn dechrau un wythnos cyn unrhyw ddyddiad pryd oedd yr ysgol honno ar gau am gyfnod di-dor o ddim llai na phedwar wythnos o'r dyddiad hwnnw ac yn diweddu un wythnos cyn y dyddiad y mae'n ailagor; • am fod yr awdurdod wedi gofyn am gyngor oddi wrth y pennaeth SEN neu berson arall sy'n gyfrifol am addysg plentyn mewn darparwydd addysg gynnar yn ystod cyfnod yn dechrau un wythnos cyn unrhyw ddyddiad pryd yr oedd y darparwydd addysg gynnar hwnnw ar gau am gyfnod di-dor o ddim llai na phedair wythnos o'r dyddiad hwnnw ac yn diweddu un wythnos cyn y dyddiad y mae'n ailagor; • mewn achosion eithriadol ar ôl cael cyngor a geisiwyd o dan reoliad 7 – h.y. cyngor addysgol, meddygol, seicolegol, cyngor gan riant y plentyn, cyngor gan wasanaethau cymdeithasol, neu unrhyw gyngor perthnasol arall, y mae'n angenrheidiol fod yr awdurdod yn ceisio cyngor pellach; • am fod rhiant y plentyn wedi mynegi i'r awdurdod ei fod yn dymuno rhoi cyngor i'r awdurdod ar ôl i 6 wythnos ddod i ben o'r dyddiad y cafwyd cais am gyngor o'r fath, a bod yr awdurdod wedi cytuno i ystyried y cyngor hwnnw cyn cwblhau'r asesiad; • am fod yr awdurdod wedi gofyn am gyngor oddi wrth awdurdod iechyd neu awdurdod gwasanaethau cymdeithasol yn y drefn honno a bod yr awdurdod iechyd neu'r awdurdod gwasanaethau cymdeithasol heb gydymffurfio â'r cais hwnnw o fewn 6 wythnos o'r dyddiad y gwnaed y cais; • am fod y plentyn yn methu â chadw apwyntiad ar gyfer archwiliad neu brawf yn ystod y cyfnod o 10 wythnos rhwng yr awdurdod yn cytuno i gynnal asesiad a gorffen yr asesiad; • am fod rhiant y plentyn yn mynegi ei fod am gyflwyno sylwadau i'r awdurdod am gynnwys y datganiad ar ôl i'r cyfnod o 15 diwrnod ar gyfer cyflwyno sylwadau o'r fath y darperir ar ei gyfer yn dod i ben; • am fod cyfarfod rhwng rhiant y plentyn ac un o swyddogion yr awdurdod wedi'i gynnal a bod rhiant y plentyn naill ai wedi'i gwneud yn ofynnol i gyfarfod arall o'r fath gael ei drefnu neu wedi'i gwneud yn ofynnol i gyfarfod â'r person priodol gael ei drefnu; neu • Cenedlaethol yn gofyn am ei gydsyniad i addysgu'r plentyn mewn ysgol annibynnol nad yw wedi'i chymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol ac nad yw'r cydsyniad hwnnw wedi dod i law'r awdurdod o fewn pythefnos o ddyddiad anfon y cais. <p>Ar gyfer rhan a) cynhwyswch yr holl ddatganiadau yn ddifater os ydy'r eithriadau yn gymwys neu beidio. Ar gyfer rhan b), eithriwch ddatganiadau lle mae'r eithriadau yn gymwys yn y rhifiadur a'r enwadur.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ar gyfer y ddwy ran, eithriwch ddiwygiadau i ddatganiadau sy'n bodoli'n barod o'r dangosydd hwn.
--	---

Cyfrifiad	<p>Rhan a)</p> <p>Rhifiadur: Nifer y disgyblion a wnaeth cael datganiadau anghenion addysgol arbennig wedi'u rhoi iddynt am y tro cyntaf ac o fewn 26 wythnos yn ystod y flwyddyn calendr, gan gynnwys eithriadau</p> <p>Enwadur: Cyfanswm nifer y disgyblion â datganiadau anghenion addysgol arbennig wedi'u rhoi iddynt am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys eithriadau</p> <p>Fformiwla: $\frac{\text{Rhifiadur}}{\text{Enwadur}} \times 100$</p> <p>Rhan b)</p> <p>Rhifiadur: Nifer y disgyblion a wnaeth cael datganiadau anghenion addysgol arbennig wedi'u rhoi iddynt am y tro cyntaf ac o fewn 26 wythnos yn ystod y flwyddyn calendr, ac eithrio eithriadau</p> <p>Enwadur: Cyfanswm nifer y disgyblion â datganiadau anghenion addysgol arbennig wedi'u rhoi iddynt am y tro cyntaf yn ystod y flwyddyn, ac eithrio eithriadau</p> <p>Fformiwla: $\frac{\text{Rhifiadur}}{\text{Enwadur}} \times 100$</p>			
Dilysiad	<p>Bydd angen esbonio gwerthoedd dangosyddion sy'n ymddangos yn arbennig o uchel neu isel o gymharu â set data Cymru gyfan ar gyfer y flwyddyn flaenorol.</p> <p>Bydd angen esbonio rhifiaduron ac enwaduron sydd wedi newid yn sylweddol ers y flwyddyn flaenorol. Caiff arwyddocâd ei bennu yn y cyd-destun hwn drwy ystyried newidiadau yng ngwerthoedd Cymru mewn blynyddoedd blaenorol.</p>			
Ffynhonnell Data	<table border="1" style="width: 100%; border-collapse: collapse;"> <tr> <td style="width: 70%;"></td> <td style="width: 20%;">Lle Degol</td> <td style="width: 10%; text-align: center;">1</td> </tr> </table>		Lle Degol	1
	Lle Degol	1		
Esboniad	<p>Fe fydd y dangosydd hwn yn rhoi mesuriad o ymatebolrwydd ac effeithiolrwydd yr awdurdod addysg leol wrth gyrraedd amserlenni statudol ar gyfer rhoi datganiadau.</p>			
Dadelfeniad	<p>Dylai dadelfeniad cael ei ystyried i ddiwallu anghenion y cyd-destun a gwybodaeth leol.</p>			

[Yn ôl](#)

Maes gwasanaeth/polisi	Yr Amgylchedd a Chludiant – Gwasanaethau Stryd
Parth	Ansawdd Gwasanaeth
Cyfeirnod	STS/S/F/006/01-022 (STS/006)
Pennawd	Cyfraddau ymateb ar gyfer cael gwared ar achosion o dipio anghyfreithlon wedi'u cofnodi
Dangosydd	<i>Canran yr achosion o dipio gwastraff yn anghyfreithlon y rhoddwyd gwybod amdanynt ac y cliriwyd y gwastraff o fewn 5 niwrnod gwaith</i>
Canllaw	<p>Gall digwyddiad o dipio anghyfreithlon cael ei ddiffinio fel casgliad o wastraff tipio anghyfreithlon e.e. gwastraff sy'n rhy fawr i'w symud gyda berfa sgubo arferol.</p> <p>Yn syml, byddai bag bin sengl lawn neu'n fwy yn golygu digwyddiad tipio anghyfreithlon. Byddai nifer o fagiau plastig llawn sbwriel wedi eu gwaredu gyda'i gilydd hefyd yn golygu digwyddiad sengl o dipio anghyfreithlon.</p> <p>Lle fod nifer o eitemau wedi eu gwaredu yn yr un ardal ar yr un pryd, gellir cael eu grwpio gyda'i gilydd fel un digwyddiad tipio anghyfreithlon. Er, os ydy'r mathau o wastraff yn wahanol, mae'n ddefnyddiol i ganfod tarddiad gwahanol pob un. Er enghraifft, os ydy lori tipio yn gwaredu gwastraff adeiladu neu ddymchwel, ac wedyn deiliaid yn cymryd y cyfle i ychwanegu ato, mae'n ddefnyddiol i drin hyn fel dau ddigwyddiad tipio anghyfreithlon.</p> <p>Dylai'r mathau o dir canlynol (fel wedi'u cofnodi ar flycapture) gael eu cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Priffyrdd • Llwybrau troed/ceffyl • Ali cefn • Tir cyngor • Cwrs/banc dŵr <p>Eithriwch y mathau canlynol o dir flycapture:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rheilffordd • Amaethyddol • Preifat – preswyl • Masnachol/diwydiannol • Arall <p>Mae 'wedi clirio' yn golygu bod y gwastraff yn cael ei symud yn ddi-oed gan yr awdurdod lleol neu ei gontractwyr.</p> <p>Caiff nifer y diwrnodau gwaith y mae'n cymryd i glirio digwyddiad tipio anghyfreithlon eu cyfri o'r dyddiad cyntaf caiff y digwyddiad ei adrodd i/dod i sylw'r awdurdod lleol trwy unrhyw fodd, (gan gynnwys gan ei staff) hyd at y dyddiad caiff y gwastraff ei glirio gan yr awdurdod lleol.</p> <p>Efallai y bydd y Meini Prawf Derbyn Gwastraff yn gohirio'r symudiad o rai mathau o wastraff tipio anghyfreithlon, ond rhaid cynnwys y digwyddiadau hyn yn y dangosydd hwn.</p>

Cyfrifiad	<p>Rhifiadur: Nifer y digwyddiadau tipio anghyfreithlon a gafodd eu a'u clirio o fewn 5 diwrnod gwaith</p> <p>Enwadur: Cyfanswm y nifer o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon a gafodd eu cofnodi gan yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn</p> <p>Fformiwla: $\frac{\text{Rhifiadur}}{\text{Enwadur}} \times 100$</p>		
Ffynhonnell Data	Enwadur: Flycapture	Lle Degol	2
Dilysiad	<p>Dylai'r enwadur fod yr un fath â nifer y digwyddiadau a gofnodwyd ar flycapture yn y mathau canlynol o dir: priffordd, llwybr troed/llwybr ceffylau, lôn gefn, tir y cyngor, cwrs dŵr/cefnen.</p> <p>Bydd angen esbonio gwerthoedd dangosyddion sy'n ymddangos yn arbennig o uchel neu isel o gymharu â set data Cymru gyfan ar gyfer y flwyddyn flaenorol.</p> <p>Bydd angen esbonio rhifiaduron sydd wedi newid yn sylweddol ers y flwyddyn flaenorol. Caiff arwyddocâd ei bennu yn y cyd-destun hwn drwy ystyried newidiadau yng ngwerthoedd Cymru mewn blynyddoedd blaenorol.</p>		
Esboniad	<p>Mae'r dangosydd hwn yn mesur yr effeithiolrwydd ac amseroldeb awdurdodau wrth iddynt ymateb i ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon</p>		
Dadelfeniad	<p>Dylai dadelfeniad cael ei ystyried i ddiwallu anghenion y cyd-destun a gwybodaeth leol</p>		

[Yn ôl](#)

Maes gwasanaeth/polisi	Yr Amgylchedd a Chludiant – Cludiant a Phrifyrdd		
Parth	Canlyniadau Strategol		
Cyfeirnod	THS/S/F/007/04-23 (THS/007)		
Pennawd	Tocynnau mantais		
Dangosydd	<i>Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy'n ddeiliaid tocynnau teithio rhatach ar y bws</i>		
Cyfarwyddyd	<p>Eithriwch docynnau sydd wedi'u rhoi i oedolion sy'n 60+ oed sydd nawr wedi marw. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael o swyddfa cofrestrydd yr awdurdod lleol.</p> <p>Dylai'r rhifiadur gynnwys pob oedolyn 60 oed neu drosodd sydd â phas bws rhatach.</p> <p>Mae'r enwadur ar gyfer y dangosydd hwn yn cael ei gyn-boblogi gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2014 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.</p>		
Cyfrifiad	<p>Rhifiadur: Cyfanswm y nifer o oedolion 60+ oed sy'n dal tocyn bws.</p> <p>Enwadur: Cyfanswm y boblogaeth 60+ oed</p> <p>Fformiwla: $\frac{\text{Rhifiadur}}{\text{Enwadur}} \times 100$</p>		
Dilysiad	<p>Bydd angen esbonio gwerthoedd dangosyddion sy'n ymddangos yn arbennig o uchel neu isel o gymharu â set data Cymru gyfan ar gyfer y flwyddyn flaenorol.</p> <p>Bydd angen esbonio rhifiaduron ac enwaduron sydd wedi newid yn sylweddol ers y flwyddyn flaenorol. Caiff arwyddocâd ei bennu yn y cyd-destun hwn drwy ystyried newidiadau yng ngwerthoedd Cymru mewn blynyddoedd blaenorol.</p>		
Ffynhonnell Data	Enwadur: Amcanestyniad Canol y Flwyddyn (MYE) o'r boblogaeth wedi'i gyhoeddi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)	Lle Degol	1
Esboniad	<p>Polisi Llywodraeth Cymru yw annog y defnydd o fanteision er mwyn gwella eu gwerth, annog y defnydd o'r gwasanaethau bws lleol a lleihau'r defnydd o geir preifat.</p> <p>Yn dilyn y cynnydd rhagweledol yn nefnydd y gwasanaeth bws lleol, ac wrth ei wella a'i amrywio, bydd lles eilaidd yn debygol.</p>		
Dadelfeniad	Dylai dadelfeniad cael ei ystyried i ddiwallu anghenion y cyd-destun a gwybodaeth leol		

[Yn ôl](#)

Maes gwasanaeth/polisi	Hamdden a Diwylliant - Chwaraeon a Hamdden
Parth	Cyrchu Gwasanaethau
Cyfeirnod	LCS/S/F/002b/03-024 (LCS/002(b))
Pennawd	Ymweliadau â chanolfannau hamdden a chwaraeon
Dangosydd	<i>Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol</i>
Canllaw	<p>Caiff canolfannau chwaraeon a hamdden eu diffinio fel:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pob Canolfan Chwaraeon a Hamdden dan do gan gynnwys darpariaeth awyr agored megis meysydd tirwedd a chyrtau awyr agored a reolir gan y Ganolfan; • Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden yn yr awyr agored ar gyfer chwaraeon penodol, a lle y caiff mynediad iddynt neu'r defnydd ohonynt eu rheoli a/neu lle mae'n rhaid i ddefnyddwyr drefnu ymlaen llaw. <p>Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys cyfleusterau chwaraeon a hamdden ar safleoedd ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol sy'n bennaf ar gyfer gweithgarwch corfforol ac sydd ar gael i'w defnyddio gan y gymuned dan drefniant rheoli ffurfiol.</p> <p>Diffiniad o'r rhifiadur - cynhwysiaid penodol Dylech gynnwys Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden dan do sy'n cynnig gweithgarwch corfforol.</p> <p>Dylech gynnwys y defnydd o Gyfleusterau Chwaraeon a Hamdden, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • meysydd sydd wedi'u marcio a'u cynnal a'u cadw yn benodol ar gyfer chwaraeon tîm awyr agored fel pêl-droed, rygbi, criced a hoci; • traciau a stadia athletau; • cyrsiau a chyfleusterau golff (gan gynnwys cyrsiau 'pitch and putt'); • a phytio, meysydd ymarfer a lawntiau pytio, ond nid 'crazy golf'); • llethrau sgïo; • cyrtiau pêl-fasged, pêl-rwyd a thennis; • lawntiau bowlio; • canolfannau chwaraeon dŵr. <p>Dylech gynnwys y defnydd y mae'r gymuned yn ei wneud o gyfleusterau chwaraeon a hamdden ysgol y tu allan i oriau ysgol pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol.</p> <p>Dylech gynnwys canolfannau chwaraeon a hamdden a gaiff eu rheoli, eu prydlesu, neu eu contractio gan yr awdurdod lleol neu lle mae trefniadau ffurfiol eraill ar waith gydag ef. Mae hyn yn cynnwys canolfannau ar gontract allanol ar ffurf prydles neu wedi'u his-gontractio i ymddiriedolaeth allanol neu gynghorau cymunedol.</p>

	<p>Diffiniad o'r rhifiadur - eithriadau penodol</p> <p>Dylech eithrio'r defnydd o unrhyw gyfleuster <i>na chaiff ei fesur yn fanwl gywir</i>, a/neu <i>lle nad yw pob ymwelydd o reidrwydd yn gwneud gweithgarwch corfforol</i>, megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darpariaeth awyr agored na chaiff ei neilltuo'n benodol ar gyfer chwaraeon fel parciau a mannau agored a ddefnyddir ar gyfer chwaraeon anffurfiol • Llwybrau cerdded neu loncian, llwybrau beicio, llwybrau ffitrwydd neu bethau tebyg • Ardaloedd chwarae i blant, parciau byrddau sglefrio a meysydd chwarae antur • Defnydd dros dro o gyfleusterau awyr agored penodedig (h.y. heb drefnu ymlaen llaw) • Cyfleusterau lle y codir tâl am barcio car yn unig, ac nid yw'n ofynnol cofrestru/trefnu ymlaen llaw • Mynediad i gyfleusterau gan ddefnyddio tocyn tymor neu drwydded, os na chaiff nifer yr ymweliadau ei gofnodi <p>Dylech eithrio defnydd o unrhyw gyfleusterau a gaiff eu rhedeg gan ymddiriedolaeth allanol neu gyngor cymuned, lle NAD yw'r awdurdod yn contractio'n ffurfiol i ddarparu'r gwasanaethau. Hynny yw NI chaiff cyfleusterau sy'n BERCHEN i gynghorau cymuned ac a gaiff eu rhedeg ganddynt eu hystyried fel rhan o ddarpariaeth awdurdod lleol, a dylid eithrio defnydd o'r rhain.</p> <p>Dylech eithrio cyfleusterau sydd ond at ddefnydd ysgolion, ac unrhyw gyfleusterau y mae disgyblion yn eu defnyddio fel rhan o'r cwricwlwm.</p> <p>Dylech eithrio adeiladau cyhoeddus eraill y gallai pobl wneud gweithgarwch corfforol ynddynt fel canolfannau cymunedol nad gweithgarwch corfforol yw eu prif ddiben.</p> <p>Dylech eithrio ymwelwyr ag unrhyw gyfleuster nad ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol, megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pobl sy'n mynychu digwyddiadau nad ydynt yn ddigwyddiadau chwaraeon e.e. ffeiriau hen bethau, cynadleddau a chyfarfodydd a gynhelir mewn canolfannau hamdden • Gwylwyr • Ymwelwyr â barrau neu gyfleusterau arlwygo mewn canolfannau hamdden <p>Diffiniad o rifiadur – achosion o drefnu ymlaen llaw ar gyfer sawl defnyddiwr</p> <p>Ar gyfer achosion o drefnu ymlaen llaw ar gyfer sawl defnyddiwr a chwaraeon/hyfforddiant timau, defnyddiwrch y ffactorau lluosu yn LCS - Atodiad A i gyfrifo nifer y defnyddwyr. Ffactor lluosu yw nifer y defnyddwyr rydych yn eu cynnwys bob amser y mae trefniant/tocyn ar gyfer y gweithgaredd hwnnw yn cael ei gofnodi. Mae'r ffactorau lluosu a argymhellir wedi'u seilio ar Ffactorau Lluosi Safonol Cenedlaethol (SNMF) Rhwydweithiau Perfformiad APSE.</p>
--	--

	<p>Ar gyfer achosion o drefnu ymlaen llaw ar gyfer sawl defnyddiwr neu mewn bloc, lluoswch nifer yr achosion o drefnu ymlaen llaw â'r ffactor yn Atodiad A. Er enghraifft, os bydd tîm rygbi yn bwcio maes chwarae ar gyfer 10 gêm i oedolion, nifer y defnyddwyr fydd (10x33=) 330.</p> <p>Diffiniad o enwadur</p> <p>Mae'r enwadur ar gyfer y dangosydd hwn wedi'i gyn-boblogi gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2015 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.</p>			
Cyfrifiad	<p>Rhifiadur: Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden yn ystod y flwyddyn pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol</p> <p>Enwadur: Cyfanswm y boblogaeth</p> <p>Fformiwla: $\frac{\text{Rhifiadur}}{\text{Enwadur}} \times 1,000$</p>			
Dilysiad	<p>Bydd angen esbonio gwerthoedd dangosyddion sy'n ymddangos yn arbennig o uchel neu isel o gymharu â set data Cymru gyfan ar gyfer y flwyddyn flaenorol.</p> <p>Bydd angen esbonio rhifiaduron sydd wedi newid yn sylweddol ers y flwyddyn flaenorol. Caiff arwyddocâd ei bennu yn y cyd-destun hwn drwy ystyried newidiadau yng ngwerthoedd Cymru mewn blynyddoedd blaenorol, er y caiff eglurhad o gynhwysiaid ac eithriadau eu hystyried ar gyfer y dangosydd hwn.</p>			
Ffynhonnell Data	<table border="1"> <tr> <td>Enwadur: Amcangyfrif Canol Blwyddyn (MYE) o'r boblogaeth a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).</td> <td>Lle Degol</td> <td>0</td> </tr> </table>	Enwadur: Amcangyfrif Canol Blwyddyn (MYE) o'r boblogaeth a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).	Lle Degol	0
Enwadur: Amcangyfrif Canol Blwyddyn (MYE) o'r boblogaeth a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).	Lle Degol	0		
Esboniad	<p>Mae cynyddu cyfraddau cymryd rhan yn rhan bwysig wrth symud tuag at yr amcan cenedlaethol o gynyddu lefelau o weithgaredd corfforol.</p> <p>Mae'r dangosydd hwn yn eithrio defnydd gan ddisgyblion fel rhan o'r</p> <p>cwricwlwm am nifer o resymau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae anghysondebau ar draws awdurdodau lleol Cymru o ran maint y ddarpariaeth ar y safle ar gyfer ysgolion. • Nid yw'n adlewyrchu llwyddiant y ddarpariaeth gan fod presenoldeb cwricwlaidd yn orfodol. • Fe'i cysylltir â'r targed llythrennedd corfforol o 'Ddringo'n Uwch' yn fwy na'r targed gweithgaredd corfforol. 			
Dadelfeniad	<p>Dylai dadelfeniad cael ei ystyried i ddiwallu anghenion y cyd-destun av gwybodaeth leol. Dyma rai meysydd i'w hystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Oedran e.e. iau/oedolion • Rhyw • Defnydd iaith • Ethnigrwydd • Anabledd 			

Y Ffactorau Lluosi Safonol Cenedlaethol

(Yn ôl Llawlyfr Rheoli Rhwydweithiau Perfformiad APSE ar gyfer Chwaraeon a Hamdden)

Achosion o drefnu ymlaen llaw ar gyfer sawl defnyddiwr

Cyrtiau Badminton	3
Cyrtiau Sboncen	2
Cyrtiau Tennis Dan Do	2.5
Cyrtiau Tennis Awyr Agored	3
Byrddau Tennis Bwrdd	2.5
Bowlio Mat Byr (Canolfan bowlio)	4
Bowlio Dan Do (Canolfan bowlio)	5.5
Bowlio Awyr Agored (Canolfan bowlio)	5.5
Bowlio Awyr Agored (Lawnt bowlio)	30
Bowlio Deg (Lôn)	4
Snwcer/ Biliards	2.5
Pŵl	2.5

Chwaraeon Tîm/Ymarfer

Pêl-droed 11-yr ochr (Gemau Uwch)	25
Pêl-droed 11-yr ochr (Gemau Cynradd)	25
Ymarfer Pêl-droed	20
Rygbi (Gemau Uwch)	33
Rygbi (Gemau Cynradd)	30
Ymarfer Rygbi	18
Hoci Dan Do (Gemau)	16
Hoci Awyr Agored (Gemau Uwch)	25
Hoci Awyr Agored (Gemau Cynradd)	25
Ymarfer Hoci	20
Criced (Gemau)	24
Criced (Rhwydi)	13
Hoci Iâ (Chwaraeon)	25
Pêl-droed 5-yr ochr Dan Do (Gemau)	11
Pêl-droed 5-yr ochr Awyr Agored (Gemau)	11
Dan Do/Awyr Agored 6-yr ochr (Gemau)	13
Dan Do/ Awyr Agored 7-yr ochr (Gemau)	15
Pêl-rwyd Dan Do (Gemau)	13
Pêl-rhwyd Awyr Agored (Gemau)	13
Pêl Fasged (Gemau)	13
Pêl Foli (Gemau)	13

[Yn ôl](#)

Maes gwasanaeth/polisi	Hamdden a Diwylliant - Llyfrgelloedd
Parth	Canlyniadau Strategol
Cyfeirnod	LCL/S/F/001/07-025 (LCL/001(b))
Pennawd	Defnydd o Wasanaethau Llyfrgelloedd Cyhoeddus
Dangosydd	<i>Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth</i>
Canllaw	<p>Mae ymweliadau â Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymweliadau corfforol â llyfrgelloedd, gan gynnwys llyfrgelloedd teithiol • Ymweliadau rhithwir • Ymweliadau corfforol â mannau gwasanaeth eraill <p>Dylai'r gwasanaeth gofnodi nifer yr ymweliadau corfforol â llyfrgelloedd, llyfrgelloedd symudol a mannau gwasanaeth eraill trwy gyfrifwr pobl electronig, rhyw fodd electronig arall y gellir ei ddiffinio'n lleol, neu drwy rifiad llaw.</p> <p>Mae 'Ymweliad Rhithwir' yn cael ei ddiffinio yn unol â diffiniad CIPFA fel:</p> <p>'sesiwn gweithgaredd/cyfres o un ARGRAFFIAD TUDALEN (Page impression) neu'n fwy, wedi'i rhoi i un DEFNYDDIWR, i wefan y llyfrgell (neu gyfeiriaduron sy'n gysylltiedig â gwasanaethau'r llyfrgelloedd o wefan yr awdurdod, fel sydd wedi'i ddiffinio gan yr awdurdod). Caiff ymwelwr unigryw ei bennu gan y cyfeiriad IP neu gwci. Ystyrir fod y sesiwn wedi dod i ben pan fod bwllch hir mewn defnydd rhwng ARGRAFFIADAU TUDALEN ar gyfer y DEFNYDDIWR hwnnw. Enghraifft o flwch hir byddai bwllch o 30 munud o leiaf. Cyfrwch un ymweliad fesul sesiwn ymwelwr.'</p> <p>Peidiwch â chynnwys unrhyw ymweliad â llyfrgelloedd sy'n cael eu cynnal gan ymddiriedolaeth allanol neu gyngor cymuned, pan NA FYDD gan yr awdurdod lleol contract i ddarparu'r gwasanaethau. Hynny yw, NID YW llyfrgelloedd y mae cynghorau cymuned yn BERCHEN arnynt, ac yn eu cynnal, yn cael eu hystyried i fod yn rhan o ddarpariaeth yr awdurdod lleol, ac felly ni ddylai unrhyw ddefnydd ohonynt gael ei gynnwys.</p> <p>Ar gyfer ymweliadau corfforol â llyfrgelloedd a mannau gwasanaeth eraill dylai'r wybodaeth gael ei chasglu dros wythnos(au) sampl ac wedyn ei chronni i gyfanswm blynyddol o 50 wythnos.</p> <p>Dylai'r wythnos(au) sampl eithrio gwyliau ysgol a gwyliau banc.</p> <p>Mae'r enwadur ar gyfer y dangosydd hwn yn cael ei ôl-boblogi gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2015 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.</p>

Cyfrifiad	<p>Rhifiadur: Nifer yr ymweliadau â Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn</p> <p>Enwadur: Cyfanswm y boblogaeth</p> <p>Fformiwla: $\frac{\text{Rhifiadur}}{\text{Enwadur}} \times 1,000$</p>		
Dilysiad	<p>Bydd angen esbonio gwerthoedd dangosyddion sy'n ymddangos yn arbennig o uchel neu isel o gymharu â set data Cymru gyfan ar gyfer y flwyddyn flaenorol.</p> <p>Bydd angen esbonio rhifiaduron ac enwaduron sydd wedi newid yn sylweddol ers y flwyddyn flaenorol. Caiff arwyddocâd ei bennu yn y cyd-destun hwn drwy ystyried newidiadau yng ngwerthoedd Cymru mewn blynnyddoedd blaenorol.</p>		
Ffynhonnell Data	Enwadur: Amcangyfrif Poblogaeth Ganol	Lle Degol	0
Esboniad	<p>Mae defnydd o wasanaethau llyfrgell, yn gorfforol ac yn rhithwir, yn nodwedd amlwg yn y Fframwaith Safonau ar gyfer 2008-2011. Maent hefyd yn dangos defnydd effeithiol o'r adnoddau sy'n benodedig yn 'Creu'r Cysylltiadau'.</p>		
Dadelfeniad	<p>Dylai dadelfeniad cael ei ystyried i ddiwallu anghenion y cyd-destun a gwybodaeth leol. Dyma rai meysydd i'w hystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Math o ymweliad e.e. ymweliadau corfforol/rhithwir • Math o PLS e.e. man gwasanaeth • Math o ddefnydd e.e. ymholiadau ar gyfer gwybodaeth. 		

Cynnwys

Atodiad A

Rhifo'r dangosyddion

Fe gyflwynwyd sustem godio newydd yn ym mis Ebrill 2005. Bydd system rhifo cyfredol fod yn gwymwys ar gyfer 2016-17. Bydd cyfeirnod pob dangosydd yn cynnwys yr elfennau canlynol yn y sustem newydd:

Côd y maes – côd 3 digid i nodi ym mha faes y mae'r dangosydd yn perthyn, fel isod:

Maes Gwasanaeth	Côd
Iechyd Corfforaethol – Adnoddau Dynol	CHR
Iechyd Corfforaethol – Iechyd Ariannol	CFH
Iechyd Corfforaethol – Rheoli Asedau	CAM
Addysg	EDU
Gofal Cymdeithasol – Gwasanaethau Oedolion	SCA
Gofal Cymdeithasol – Gwasanaethau Plant	SCC
Cyfiawnder Ieuencid	SCY
Tai – Cyngor ar Ddigartrefedd a Thai	HHA
Tai – Adnewyddu'r Sector Preifat	PSR
Tai - Effeithiolrwydd Ynni	EEF
Tai - Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor	BNF
Yr Amgylchedd a Chludiant - Rheoli Gwastraff	WMT
Yr Amgylchedd a Chludiant - Gwasanaethau Stryd	STS
Yr Amgylchedd a Chludiant - Cludiant a Phrifyfyrdd	THS
Yr Amgylchedd a Chludiant – Rheoli Cefn Gwlad	CMT
Gwasanaethau Cynllunio a Rheoli – Cynllunio	PLA
Gwasanaethau Cynllunio a Rheoli - Rheoli Adeiladu	BCT
Gwasanaethau Cynllunio a Rheoli - Diogelu'r Cyhoedd	PPN
Hamdden a Diwylliant – Chwaraeon a Hamdden	LCS
Hamdden a Diwylliant – Llyfrgelloedd	LCL

Côd y Statws – Bydd hyn naill ai'n 'S' neu 'C' yn dibynnu os yw'r dangosydd yn statudol, neu os oedd y dangosydd yn gynt rhan o'r set dangosyddion craidd, yn ôl eu trefn.

Côd Datblygu – Bydd hyn naill ai'n 'F' i ddynodi bod y dangosydd yn derfynol neu'n 'D' i ddynodi ei fod yn cael ei ddatblygu.

Cyfeirnod – ffigur 3 digid fydd yn nodi pob dangosydd mewn set graidd. Ar ôl rhoi'r ffigur hon i ddangosydd, nid oes modd ei briodoli i ddangosydd arall, hyd yn oed os yw'r dangosydd yn cael ei ddileu.

Rhif y fersiwn – rhif 2 ddigid fydd yn cynyddu bob tro caiff y dangosydd ei ddiwygio.

Rhif y drefn – côd 3 digid fydd yn eich galluogi chi i drefnu pob set mewn modd call er mwyn eu dangos ac i wneud gwaith dadansoddi'r data'n haws. Wrth ddechrau ychwanegu neu ddileu dangosyddion, ni fydd y cyfeirnodau yn golygu

eu bod mewn unrhyw drefn gall. Felly, dylai'r rhif y drefn ddygymod â hyn.

Dyma enghraifft o sut bydd y sistem godio yn gweithio yn ystod y blynyddoedd nesaf:

	2005-06	2006-07	2007-08
Codau	CHR/S/F/001/01-001 CHR/S/D/002/01-002 CHR/C/D/003/01-003 CHR/C/F/004/01-004 CHR/C/F/005/01-005	CHR/S/F/001/01-001 CHR/S/F/002/02-002 CHR/C/F/004/01-003 CHR/C/F/005/01-004	CHR/S/F/001/01-001 CHR/S/F/002/03-002 CHR/S/F/006/01-003 CHR/C/F/004/01-004 CHR/C/F/005/01-005 CHR/C/D/007/01-006
Disgrifiad	5 dangosydd newydd ar gyfer maes. Mae 3 yn ddiffiniadau terfynol, mae 2 yn cael eu datblygu ac angen eu harbroti.	Mae dangosydd 2 wedi'i ddatblygu a hwn fydd fersiwn 2 yr un dangosydd. Nid yw dangosydd 3 yn bodoli mwyach. Mae'r holl ddiffiniadau wedi'u pennu erbyn hyn.	Mae dangosydd 2 wedi'i ddatblygu a hwn fydd fersiwn 3. Mae dangosydd 6 newydd yn cael ei ddatblygu a bydd yn dilyn 2 yn y drefn. Mae dangosydd 7 wedi'i ddatblygu i'w arbroti ac mae wedi'i roi ar ddiwedd y drefn.

Rydyn ni'n cydnabod fod cael fersiynau byrrach o'r codau yn ddefnyddiol wrth drafod y dangosyddion. Gan hynny, bydd y côd yn cynnwys côd y maes a'r cyfeirnod yn unig e.e. 'CHR/001' neu 'CHR-un' wrth eu trafod ar lafar. Rydym yn cymryd yn ganiataol mai fersiwn diweddaraf y dangosydd fydd o dan sylw.

[Cynnwys](#)

Atodiad B

Dogfen Ategol

[Adran 1](#)

Diwygiadau i'r dangosyddion ar gyfer 2016-17

[Yn ôl](#)

Adran 1

Diwygiadau i'r dangosyddion ar gyfer 2016-17

Mae cyfeiriad at y flwyddyn wedi eu diweddarau er mwyn adlewyrchu'r flwyddyn adrodd.

Cyfeirnod	Diwygiad	Esboniad
Cefnogi bywydau diogel ac annibynnol		
SCA/001	Wedi ei ddileu: <i>Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd</i>	Dangosydd wedi cael ei ddileu am fod data mwy ystyrlon ar gael (gweler SCA/021).
SCA/021	Wedi ei ddisodli: <i>Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd</i>	Dangosydd wedi disodli SCA/001. Carfan wedi ei diwygio i gleientiaid 75 oed ac yn hŷn.
SCA/007	Wedi ei ddileu: <i>Canran y cleientiaid a chynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi'u hadolygu a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn</i>	Dangosydd wedi ei ddileu gan nad yw data o'r ffynhonnell ar gael bellach.
SCA/019	Wedi ei ddileu: <i>Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli</i>	Dangosydd wedi ei ddileu gan nad yw data o'r ffynhonnell ar gael bellach.
SCA/018a	Wedi ei ddileu: <i>Canran y gofawyr sy'n gofalu ar ôl oedolion a gafodd cynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion eu hunain yn ystod y flwyddyn</i>	Dangosydd wedi ei ddileu gan nad yw data o'r ffynhonnell ar gael bellach.
SCA/002a	Wedi ei ddileu: <i>Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth</i>	Dangosydd wedi ei ddileu gan nad yw data o'r ffynhonnell ar gael bellach.

SCA/002b	Wedi ei ddileu: <i>Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth</i>	Dangosydd wedi ei ddileu gan nad yw data o'r ffynhonnell ar gael bellach.
Diogelu plant		
SCC/045	Wedi ei ddileu: Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, adolygiadau plant sydd ar y Cofrestr Amddiffyn Plant ac adolygiadau plant mewn angen a gafodd eu cynnal yn unol a'r amserlenni statudol	Dangosydd wedi ei ddileu gan nad yw data o'r ffynhonnell ar gael bellach.
SCC/025	Wedi ei ddileu: Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd i fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a gafodd eu cynnal yn unol â'r rheoliadau	Dangosydd wedi ei ddileu gan nad yw data o'r ffynhonnell ar gael bellach.
SCC/037	Wedi ei ddileu: <i>Cyfartaledd y sgôr pwyntiau mewn cysylltiad â chymwysterau allanol plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhyw sefyllfa ddysgu a gynhelir 20 Canllawiau Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol ar gyfer Cymru 2015-16 3 gan awdurdod lleol</i>	Dangosydd wedi ei ddileu gan nad yw data o'r ffynhonnell ar gael bellach.
SCC/041a	Wedi ei ddileu: <i>Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd â chynlluniau llwybr yn ôl yr angen</i>	Dangosydd wedi ei ddileu gan nad yw data o'r ffynhonnell ar gael bellach.
SCC/011b	Wedi ei ddileu: <i>Canran yr asesiadau cychwynnol wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle mae yna dystiolaeth bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gweld y plentyn ar ben ei hun</i>	Dangosydd wedi ei ddileu gan nad yw data o'r ffynhonnell ar gael bellach.
SCC/033d	Wedi ei ddileu: <i>Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal y flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy a hwythau'n 19 oed</i>	Dangosydd wedi ei ddileu gan nad yw data o'r ffynhonnell ar gael bellach.
SCC/033e	Wedi ei ddileu: <i>Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod mewn llety addas, nad yw'n llety argyfwng a hwythau'n 19 oed</i>	Dangosydd wedi ei ddileu gan nad yw data o'r ffynhonnell ar gael bellach.

SCC/033f	Wedi ei ddileu: <i>Canran y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod yn ymgymryd ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a hwythau'n 19 oed</i>	Dangosydd wedi ei ddileu gan nad yw data o'r ffynhonnell ar gael bellach.
Rheolaith corfforaethol		
CHR/002	Egluro na ddylai 'Person a gyflogir gan yr awdurdod lleol ar gontract dim oriau' gael ei gynnwys.	I sicrhau bod data yn cael ei adrodd yn gyson ledled Cymru gan ganiatáu cymariaethau ystyrlon.